

***Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Eryri***

---

**Snowdonia Biodiversity Action Plan**

***Cynefinoedd ~ Habitats***



*Coed, dolydd gwair ac ucheldir: mae'r ystod eithriadol eang o gynefinoedd yn Eryri yn cynnal amrywiaeth diri o fywyd gwyllt. Woods, meadows and uplands: the huge range of habitats in Snowdonia support a very varied wildlife.*



## Adeiladau

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Mae adeiladau yn cynnwys yr holl adeiladau, gwag neu ddim, megis tai preswyl, adeiladau fferm, eglwysig ac ati. O ganlyniad, mae nifer ac amrywiaeth helaeth o'r math hwn o gynefin yn Eryri, yn enwedig o gwmpas pentrefi fel Betws-y-coed a threfi fel Dolgellau. Lleolir adeiladau eraill sy'n rhoi lloches i fywyd gwyllt, fel adeiladau fferm, mewn mannau mwy anghysbell. Yn enwedig, mae'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig gyda'r adeiladau hyn yn cynnwys yr ystlum [lleiaf] Pipistrelle (*Pipistrellus pipistrellus*), yr ystlum siaradus (*Myotis nattereri*), yr ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*), y dylluan wen (*Tyto alba*) a rhedyn y graig (*Asplenium septentrionale*).

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys ond helaeth.
- 1 Cenedlaethol: Mae ardaloedd adeiledig yn cyfrif am tua 15% o arwynebedd y wlad, ac ar gynnydd.
- 1 Eryri: Mae adeiladau mewn defnydd yn cyfrif am tua 1% o arwynebedd y Parc Cenedlaethol.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: ISEL.
- 1 Cenedlaethol: ISEL.
- 1 Eryri: ISEL/CANOLIG.

### Ffactorau yn effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o ofynion bywyd gwyllt, sy'n cyfrannu llawer at yr effaith ar ansawdd ac ehangder y cynefin hwn.
- 1 Gall trwsio a chynnal adeiladau leihau ansawdd ac ehangder y cynefin hwn a pheri iddynt golli gwerth eu bywyd gwyllt yn y pen draw.
- 1 Diraddio'r cynefin oherwydd diffyg cynnal a/neu fandaliaeth. Gall hyn greu problemau sylweddol ac atal cyflawni gwaith arolwg.
- 1 Gall perchnogion eiddo heb fawr o gydymdeimlad at fywyd gwyllt achosi anawsterau gydag asesu a chynnal cynefinoedd bywyd gwyllt.
- 1 Mae cael mynediad i arolygu adeiladau fel cabanau gwylliau yn medru bod yn anodd i asesu ansawdd y cynefin hwn. Mae mynd a dod cyson preswylwyr y tai haf hyn hefyd yn golygu mwy o gwynion, a'r gwaith o ateb y cwynion hynny o ganlyniad.
- 1 Mae defnydd o adeiladau gan fywyd gwyllt yn aml yn dymhorol ac yn digwydd yn ddjarwybod inni oni bai fod arolwg trylwyr yn cael ei wneud.
- 1 Diffyg deddfwriaeth i atal gwall ymgeledd a/neu ddymchwel adeiladau gweigion.
- 1 Mae'r gyfraith ar warchod bywyd gwyllt a'i gynefin yn eithaf cynhwysfawr ond yn aml yn cael ei anwybyddu oherwydd camddealltwriaeth. Gall deddfau eglwysig atal cyflawni gwaith cynnal a chadw adeiladau eglwysig segur, er enghraifft.

## Buildings

### Current status

#### Description

Buildings include all occupied and unoccupied dwellings such as residential, farming and ecclesiastical properties. Consequently there is a prolific number and variety of this type of habitat within the Snowdonia area, predominantly around small settlements like Betws y Coed and Dolgellau. Other buildings important for wildlife, such as farms, are located in more isolated parts of the Snowdonia area, and these also provide important havens for a variety of species. Notable, and UK priority species associated with buildings include the Pipistrelle bat (*Pipistrellus pipistrellus*), Natterers bat (*Myotis nattereri*), Lesser Horseshoe bat (*Rhinolophus hipposideros*), Barn Owl (*Tyto alba*) and Forked Spleenwort (*Asplenium septentrionale*).

#### Extent

- 1 International: Unknown but extensive.
- 1 National: Built-up areas cover approximately 15%, but expanding.
- 1 Snowdonia: Occupied buildings cover approximately 1% of Snowdonia National Park.

#### Priority

- 1 International: LOW.
- 1 National: LOW.
- 1 Snowdonia: LOW/MEDIUM.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 A general lack of awareness concerning wildlife requirements is a major contributing factor affecting the quality and quantity of this habitat.
- 1 Building repairs and maintenance can considerably reduce the quantity and quality of this habitat and can ultimately cause the habitat to be of little wildlife value.
- 1 Degradation of habitats due to lack of maintenance and/or vandalism. This can create significant problems and stop survey work being carried out.
- 1 Property owners with little sympathy towards wildlife can cause difficulties in assessing and maintaining suitable wildlife habitats.
- 1 Gaining access to survey irregularly occupied properties, such as holiday chalets, can be problematic in assessing habitat quality. The high turn-over of residents in these properties also tends to increase the likelihood of complaints and consequential action being taken.
- 1 The use of occupied buildings by wildlife is often seasonal and is sometimes not apparent unless a thorough and expert survey is undertaken.
- 1 Lack of legislation to prevent empty buildings going into disrepair and/or demolition of buildings.
- 1 Legislation protecting wildlife and their habitats is fairly comprehensive but often ignored due to various misconceptions. Ecclesiastical laws may prevent maintenance of disused church properties.





- 1 Mae grantiau Tir Cymen ar gael i drwsio nifer eithaf pitw o adeiladau amaethyddol bob blwyddyn.
- 1 Ofnau di-sail ynglŷn â rhannu ein cartrefi gyda bywyd gwyllt.

## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithicl

- 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) a Deddf Rheolau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994 yw'r brif deddfwriaeth ar gyfer diogelu bywyd gwyllt a'i gynefinoedd. Dan y deddfau hyn mae'n anghyfreithlo aflonyddu ar rywogaeth dan warchodaeth ac mae'n rhaid i unrhyw gamau i gael ei gwared o adeilad fod dan arweiniad y Cyngor Cefn Gwlad.
- 1 Mae'n rhaid cysylltu gyda'r CCGC cyn gwneud unrhyw waith ar adeiladau sy'n rhoi lloches i anifail rhestredig dan fygythiad. Fodd bynnag, gall aderyn neu anifail gwyllt yn hawdd fod mewn adeilad gwag yn ddiarwybod i bobl.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Mae arweiniad ar gael i adeiladwyr a pherchnogion adeiladau gan y CCGC ac amryw o gyrff anstatudol eraill ar beth i'w wneud os yw adeilad yn cael ei ddefnyddio gan fywyd gwyllt.
- 1 Mae cyngor ar gael ar sut i drin pren yn sensitif.

### Amcanion

- 1 Adolygu ansawdd presennol yr adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan fywyd o fewn ardal y Cynllun Gweithredu.
- 1 Asesu maint y broblem yn y Parc trwy ddefnyddio databasau'r CCGC a'r Parc.
- 1 Codi ymwybyddiaeth perchnogion a'r diwydiant adeiladu o'u cyfrifoldebau dros warchod rhywogaethau dan warchodaeth.
- 1 Hyrwyddo arbenigedd y CCGC a chyrrff anstatudol eraill wrth gynorthwyo gyda datrys problemau, er lles y perchennog a bywyd gwyllt fel ei gilydd.
- 1 Cynnal cynefinoedd trwy hybu adnewyddu adeiladau mewn dull sensitif, i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n cael eu hachosi gan fywyd gwyllt yr adeiladau hyn.
- 1 Codi ymwybyddiaeth o'r grantiau sydd ar gael i adfer a chreu cynefin.
- 1 Newid deddfwriaeth eglwysig i ganiatáu trwsio eglwysi neu gapeli gweigion pwysig.
- 1 Dylid ystyried adeiladau fferm fel rhan annatod o'r cynefin mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Cysylltu gyda'r holl gyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant adeiladu a'u perswadio i newid eu Codau Ymarfer i gynnwys parch at fywyd gwyllt, a rhoi manylion ar sut i ymateb pan ddarganfyddir bywyd gwyllt pwysig.

**Gweithredu: CCGC, GYG.**

- 1 Dylai ystyriaeth o geisiadau cynllunio i adeiladu mewn ardaloedd sensitif fynnu y rhoddir ystyriaeth ddifrifol i fywyd gwyllt cyn rhoi caniatâd.

**Gweithredu: APCE.**

- 1 Tir Cymen grants are available for the repair of an insignificant number of agricultural buildings annually.
- 1 Unfounded fears of sharing homes with wildlife.

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 The Wildlife and Countryside Act (1981) and supplementary Conservation (Natural Habitats) Regulations Act (1994) are the principal legislation for the protection of wildlife and their habitats. These Acts make it illegal to disturb protected species and undertaking any steps to exclude them from a building must be done under guidance from CCW.
- 1 CCW must be consulted prior to any building work being carried out on a property that shelters any listed endangered animal. However, resident wildlife can easily go unnoticed in empty buildings.

### Management, Research and Guidance

- 1 Guidance for owners and builders is available from CCW and numerous non-statutory organisations regarding wildlife and occupied buildings.
- 1 Advice is available on environmentally-friendly timber treatment.

### Objectives

- 1 Review current status of the quality of occupied buildings within the BAP area.
- 1 Assess the scale of the problem within the Park by consulting CCW and SNPA databases.
- 1 Raise awareness of owners and the building industry to their responsibilities regarding protected species in buildings.
- 1 Promote expertise of CCW and other non-statutory organisations in helping to solve problems to the mutual benefit of both owner and wildlife
- 1 Retain current habitats by promoting sympathetic renovation building work to overcome any problems caused by resident wildlife.
- 1 Raise awareness of financial grants available for habitat restoration and creation.
- 1 Change of legislation by ecclesiastical authorities to allow repairs to be carried out on disused churches and chapels that are of significant importance.
- 1 Farm buildings should be treated as an integral part of the habitat within agri-environment schemes and treated accordingly.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Approach all agencies representing building industry and persuade them to amend their current Code of Practice to include respect for wildlife and give details of the procedures to follow when protected species are encountered.

**Action: GBG, CCW.**

- 1 Planning permission for building in sensitive areas should stipulate that wildlife provisions are given serious consideration before planning permission is granted.

**Action: SNPA.**



### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Cysylltu a thrafod gyda'r Awdurdodau Eglwysig pan gyfyd cyfle i brydlasu adeiladau eglwysig ar gyfer y gymuned leol, grwpiau bywyd gwyllt gwirfoddol ayb, am rent nominal, yn ddychwelyd am gynnal yr eiddo fel cynefin bywyd gwyllt.  
**Gweithredu: APCE, GYG.**
- 1 Sicrhau fod arolwg arbenigol manwl yn cael ei wneud o botensial adeilad fel lloches i fywyd gwyllt cyn ei ddymchwel.  
**Gweithredu: APCE.**
- 1 Prynu adeiladau pwysig sydd mewn perygl o gael eu colli fel cynefin oherwydd amharoddrwydd eu perchnogion i'w cynnal.  
**Gweithredu: VWT.**
- 1 Hyfforddi swyddogion amaeth-amgylcheddol fel bod modd cynnwys cynnal a chadw adeiladau mewn cynlluniau rheoli a thalu grantiau i gynnal adeiladau gyda bywyd gwyllt pwysig.  
**Gweithredu: GYG, CCGC.**
- 1 Cysylltu gyda'r NFU, Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas y Tirfeddianwyr i godi ymwybyddiaeth ffermwyr a thirfeddianwyr o bwysigrwydd eu hadeiladau ac effeithiau posib unrhyw newid yn eu defnydd tymhorol. Dylid talu grantiau i annog ffermwyr i ddiogelu unrhyw fywyd gwyllt yn eu hadeiladau.  
**Gweithredu: APCE, CCGC.**
- 1 Gwella adeiladau i greu cynefinoedd bywyd gwyllt addas.  
**Gweithredu: GYG, CCGC.**
- 1 Trosi adeiladau segur i greu cynefinoedd bywyd gwyllt addas.  
**Gweithredu: GYG, CCGC.**

### Cynghori

- 1 Cynghori tirfeddianwyr ynglŷn â phwysigrwydd adeiladau fel cynefinoedd bywyd gwyllt.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, GYG, BCT, CGA.**

### Ymchwil a Monitro i'r Dyfodol

- 1 I sefydlu databas o'r adeiladau sy'n bwysig i fywyd gwyllt..  
**Gweithredu: APCE, CCGC, GYG, BCT, CGA.**

### Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd

- 1 Parhau a chefnogi gwaith Grŵp Ystlumod Gwynedd (GBG) a'r Ymddiriedolaeth Diogelu Ystlumod (BCT) i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyflwr ystlumod ayb, gyda digwyddiadau fel Wythnos Ystlumod a sgysia a theithiau cerdded. I gyrraedd cynulleidfahangach, mae angen cymorth sefydliadau fel Parc Eryri a'r CCGC -nid oes gan gyrrff bychain gwirfoddol ddigon o adnoddau.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, GYG, BCT.**
- 1 Trefnu diwrnodau codi ymwybyddiaeth i benseiri ac arolygwyr adeiladu i'w galluogi i adnabod presenoldeb rhywogaeth dan warchodaeth hyd yn oed pan fo'r anifail ei hunn yn absennol, a sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol. Dylid hefyd annog penseiri i ddarparu ar gyfer bywyd gwyllt pan yn cynllunio adeiladau a'u bod yn gwybod sut i wneud hyn, e.e., gosod 'briciau ystlumod'.  
**Gweithredu: GYG, CCGC.**

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Approach Church Authorities and discuss opportunities for local communities, voluntary wildlife groups, etc. to lease church buildings at pepper corn rent in return for maintaining the property as a wildlife habitat.  
**Action: SNPA, GBG.**
- 1 Ensure that a detailed expert survey is carried out with regard to a building's wildlife harbouring potential before its demolition.  
**Action: SNPA.**
- 1 Purchase important buildings which are in danger of being lost as a habitat due to unwillingness of owners to maintain them.  
**Action: VWT.**
- 1 Train agri-environment officers so that appropriate building maintenance can be written into farm management plans and payment of grants are made to maintain buildings of wildlife importance.  
**Action: GBG, CCW.**
- 1 Approach NFU, FUW and CLA as vehicles for raising awareness of the importance of their members' buildings and the possible effects of changes in seasonal use. Payments should be introduced to encourage farmers to actively protect important species occupying their buildings.  
**Action: SNPA, CCW.**
- 1 Enhance existing buildings to provide suitable wildlife habitats.  
**Action: GBG, CCW.**
- 1 Convert redundant buildings to create suitable wildlife habitats.  
**Action: GBG, CCW.**

### Advisory

- 1 Advise land owners/occupiers of the importance of buildings as wildlife habitats  
**Action: SNPA, CCW, GBG, BCT, RSPB.**

### Future Research and Monitoring

- 1 Establish database of buildings important for wildlife.  
**Action: SNPA, CCW, GBG, BCT, RSPB.**

### Communication and Publicity

- 1 Continue supporting work of GBG and BCT in promoting public awareness of the plight of bats etc. with events such as National Bat Week and illustrated talks and walks. To reach a wider audience needs the assistance of agencies such as SNPA and CCW as it is beyond the resources of small voluntary bodies.  
**Action: SNPA, CCW, GBG, BCT.**
- 1 Organise awareness days for architects and building inspectors to enable them to spot any tell-tale signs of the presence of protected species even when the animals themselves are not present and ensure that they are aware of current protective legislation. Architects should also be encouraged to accommodate wildlife when designing buildings and be made aware of the products available to assist with this procedure e.g. 'bat bricks'.  
**Action: GBG, CCW.**





## **Gweithredu**

### **Ffynonellau Ariannu a Chyngor Posib**

- <sup>1</sup> Statudol: APCE, CCGC
- <sup>1</sup> Anstatudol: CBN, GYG, VWT, CGA, BTO ayb
- <sup>1</sup> Eraill.

### **Corff Cydlyn**

- <sup>1</sup> GYG, CCGC.

### **Manteision**

- <sup>1</sup> Cynnal cynefinoedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt gwerthfawr.
- <sup>1</sup> Galluogi mwy o werthfawrogiad o fywyd gwyllt brodorol.

## **Implementation**

### **Sources of Possible Funding and Advice**

- <sup>1</sup> Statutory: CCW and SNPA
- <sup>1</sup> Non-statutory: NWWT, GBG, VWT, RSPB, BTO etc.
- <sup>1</sup> Other:

### **Co-ordinating Body**

- <sup>1</sup> GBG, CCW.

### **Benefits**

- <sup>1</sup> Maintain important habitats for precious wildlife.
- <sup>1</sup> Allow greater appreciation of native wildlife.



## Gerddi

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Mae gerddi, yn cynnwys gerddi bychain a thir ym meddiant awdurdodau lleol yn ogystal â gerddi mawr ffurfiol, yn ffurfio cynefin sylweddol yn Eryri. Mae gerddi sydd ynghlwm wrth gartrefi pobl yn tueddu i fod yn llai na chwarter acer ac yn dir agored fel arfer wedi ei neilltuo i blant neu anifeiliaid anwes chwarae, neu i dyfu planhigion ecsotig ac, yn draddodiadol ond i raddau llai, i dyfu llysiau. Pan mae gan bentref a chyrion trefi nifer fawr o erddi, maen nhw fel arfer yn ddigon agos at ei gilydd i greu rhwydwaith o gynefinoedd bywyd gwyllt, yn enwedig i adar a phryfed cyffredin. Mae amryw byd o greaduriaid asgwrn cefn yn cynnwys y glöynnod byw mwy cyffredin yn defnyddio gerddi yn yr haf. Mae bwydo adar gwylltion yn rhywbeth poblogaidd iawn.

Mae gerddi addurnedig mwy fel Plas Tan y Bwlch, Brondanw a Phorthmeirion yn tyfu planhigion aeddfed, ecsotig ac anghyffredin sy'n fwyd gwerthfawr i nifer o adar a phryfed o bell, yn enwedig mewn blynyddoedd lle mae'r cyflenwad bwyd lleol yn brin.

Mae gerddi yn gyfle ardderchog i bobl ddod yn agosach at eu bywyd gwyllt lleol.

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys ond sylweddol.
- 1 Cenedlaethol: Anhysbys ond sylweddol.
- 1 Eryri: Ehangder yn anhysbys. Mae gerddi plastai pwysig fel arfer wedi eu canolbwyntio o gwmpas pentrefi fel Beddgelert, Betws-y-coed, Llan Ffestiniog, Dinas Mawddwy ac ar gyrion trefi fel Dolgellau, Harlech a'r Bala. Mae gerddi ffurfiol yn ymestyn dros tua 10 hectar fel arfer.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: ISEL.
- 1 Cenedlaethol: ISEL.
- 1 Eryri: CANOLIG. Cyfle ardderchog i'r cyhoedd gefnogi Cynllun Bioamrywiaeth Eryri trwy weithredu'n gynladwy ac yn amgylcheddol.

### Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Ymwybyddiaeth wael o botensial garddio bywyd gwyllt.
- 1 Y defnydd a wneir o bla a chwynleiddiaid.
- 1 Tueddiadau a pholisïau y diwydiant garddwriaeth, e.e., nid yw planhigion diffwrwyth wedi eu croesi o fawr werth i fywyd gwyllt.
- 1 Polisiâu gwahanol sefydliadau, awdurdodau lleol ayb, ynglŷn â thir cyhoeddus.
- 1 Diffeithwch gerddi, yn enwedig ar hen stadau, sydd yna'n denu planhigion difäol dieithr iddynt (e.e. *Rhododendron ponticum* a *Llysiau'r Dial* (*Fallopia japonica*)).

## Gardens

### Current status

#### Description

Gardens, including small privately owned and local authority controlled land as well as large formal gardens, form a significant habitat in Snowdonia. Gardens attached to peoples homes tend to be less than a quarter of an acre, and are generally open spaces devoted to use as play areas for children, domestic pets, or growing exotic plants and, traditionally but, to a lesser extent, for the cultivation of vegetables. When large numbers of gardens are centred on villages and the outskirts of towns they are frequently close enough to form a network of habitats, enhancing their impact as wildlife habitats, especially for common bird and insect species. Numerous invertebrates, including some of the more common butterfly species, utilise garden habitats during the summer. Feeding wild birds is a popular activity.

Larger ornamental gardens, such as Plas Tan y Bwlch, Brondanw and Porthmeirion, protect mature exotic and unusual native plants that provide a valuable seasonal food supply for a number of bird and insect species from a wide area, especially during years when local native food sources become deficient.

Gardens provide a vital opportunity for people to get close to their local wildlife.

#### Extent

- 1 International: Unknown but extensive.
- 1 National: Unknown but extensive.
- 1 Snowdonia: Extent unknown. Gardens of domestic residences are predominantly centred on villages such as Beddgelert, Betws y Coed, Llan Ffestiniog, Dinas Mawddwy and the outskirts of towns such as Dolgellau, Harlech and Bala. Formal gardens, cover approximately 10 hectares.

#### Priority

- 1 International: LOW.
- 1 National: LOW.
- 1 Snowdonia: MEDIUM. An excellent opportunity for individual members of the public to support the Snowdonia BAP by implementing sustainable and environmental action.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Poor awareness of the potential of wildlife gardening.
- 1 Use of herbicides and pesticides.
- 1 Trends and policies of horticulture industry, e.g. sterile hybrids are not of great benefit to wildlife.
- 1 Policies of various organisations, local authorities etc. concerning amenity areas.
- 1 Dereliction of gardens, especially of old estates, that act as reservoirs for invasive aliens (e.g. *Rhododendron ponticum* and Japanese knotweed (*Fallopia japonica*)).





- 1 Y duedd i erddi mawr, ar stadau mawr fel arfer, gael eu rhannu a'u gwerthu fel tir i godi tai.

## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithiol

- 1 Unigolion preifat, awdurdodau lleol ac elusennau annibynnol sydd piau y rhan fwyaf o erddi.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Mae ymchwil i arddio bywyd gwyllt organig cynaladwy yn cael ei wneud gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen a chan Ymddiriedolaeth Gerddi Plas Tan y Bwlch.
- 1 Rhoddir gwybodaeth a chyngor ar warchod planhigion gwyllt a theuluoedd planhigion brodorol gan sefydliadau cenedlaethol fel Flora Locale a Fauna for Flora. Eu nod yw annog garddwy'r i blannu mathau brodorol o blanhigion i gynnal y bywyd gwyllt lleol.
- 1 Mae Plas Tan y Bwlch a Phorthmeirion yn cymryd rhan yn y Rhaglen Gonwydd Ryngwladol sydd am sefydlu banc genetig er mwyn ceisio ailgyflwyno planhigion a blodau sydd dan fygythiad yn fyd eang.
- 1 Mae'r cynllun Plant for Wildlife, ar y cyd â rhai canolfannau garddio yn yr Alban, yn hyrwyddo garddio er lles bywyd gwyllt.
- 1 Mae Antur Waunfawr yn gosod esiampl bwysig o fewn y gymuned ar y defnydd cynaladwy, natur 'gyfeillgar' sydd modd ei wneud o dir cyhoeddus.

### Amcanion

- 1 Cynhyrchu a hyrwyddo llawlyfr i arddio er lles bywyd gwyllt.
- 1 Codi ymwybyddiaeth o werth gerddi bywyd gwyllt a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r cynefinoedd hyn a phlannu planhigion garddwriaethol.
- 1 Llunio rhestr leol o ba blanhigion 'caled' hawdd eu trin i'w plannu ar dir cyhoeddus, ac sy'n lles i fywyd gwyllt.
- 1 Rhoi gwybodaeth a chyngor ar arddio bywyd gwyllt a chynhyrchu bwyd yn organig.
- 1 Annog a hyrwyddo busnesau i gynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt cynaladwy ar eu tir.
- 1 Mapio ehangder a lleoliad gerddi, tiroedd agored cyhoeddus ayb yn Eryri ac asesu eu gwerth ecolegol presennol.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Sicrhau gwarchodaeth i blanhigion gwyllt brodorol, yn enwedig rhag planhigion difäol dieithr, a'u bod ar restr y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

**Gweithredu: CCGC.**

- 1 Dynodiadau tirluniau treftadol.

**Gweithredu: CCGC.**

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Annog garddio cynaladwy natur-gyfeillgar ar dir mwynderol.

**Gweithredu: CG, CCBC, APCE.**

### Cynghori

- 1 Annog a hwyluso astudiaethau a phrosiectau rheoli ar gyfer gerddi yn ac o gwmpas Eryri.

**Gweithredu: CCGC, APCE.**

- 1 Large gardens, usually in large estates, being split up and sold as building plots.

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 The majority of gardens are owned by private individuals, local authorities and independent charities.

### Management, Research and Guidance

- 1 Research into organic and sustainable wildlife gardening is carried out by the Centre for Alternative Technology and Plas Tan y Bwlch Gardens Trust.
- 1 Information and advice on protecting indigenous wild plants and plant communities is provided by national organisations, such as Flora Locale and Fauna for Flora, that aim to encourage gardeners to plant local native species to support local Biodiversity.
- 1 Plas Tan y Bwlch and Porthmeirion are participating in the International Conifer Programme aimed at establishing a genetic bank for the possible re-introduction of globally threatened species.
- 1 Plants for Wildlife scheme, in joint collaboration with some Scottish garden centres, promotes wildlife beneficial gardening.
- 1 Antur Waunfawr is setting an important example within the community with sustainable, wildlife friendly uses of land for public amenity.

### Objectives

- 1 Produce and promote a guide to good wildlife gardening.
- 1 Raise awareness of the value of wildlife gardens and threats associated with these habitats and horticultural plantings.
- 1 Establish a local list of recommended hardy, low maintenance plants for amenity and wildlife planting.
- 1 Disseminate information and advice on wildlife gardening and organic food production.
- 1 Encourage and promote businesses to incorporate suitable wildlife habitats in their grounds.
- 1 Map the extent and location of gardens, public amenity areas etc. within Snowdonia and evaluate their current ecological value.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Ensure the protection of native wild plants, including protection from invasive alien species, that may, or may not, be scheduled on the Wildlife and Countryside Act.

**Action: CCW.**

- 1 Heritage landscape designations.

**Action: CCW.**

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Encourage sustainable, wildlife-friendly gardening in amenity areas.

**Action: GC, CCBC, SNPA.**

### Advisory

- 1 Encourage and enable garden studies and management projects in and around Snowdonia.

**Action: CCW, SNPA.**







- 1 *Darparu gwybodaeth ar ba wasanaethau garddio bywyd gwyllt sydd ar gael.*  
**Gweithredu: APCE.**

**Ymchwil a Monitro i'r dyfodol**

- 1 *Mapio ehangder y gwahanol gategoriâu o erddi yn Eryri bob 10 mlynedd er mwyn canfod unrhyw newidiadau mewn ansawdd neu faint.*  
**Gweithredu: Ysgolion a cholegau lleol.**

**Cyfathrebu a Chyhoedduswydd**

- 1 *Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â Bioamrywiaeth Lleol Eryri, yn enwedig y llawlyfr ar arddio bywyd gwyllt a'r Cynllun Gweithredu ar Gynefin Adeiladau. HA1*  
**Gweithredu: APCE, CCGC, CBN.**
- 1 *Hybu arferion a syniadau traddodiadol am arddio yng Nghymru, yn enwedig tyfu coed ffrwythau a pherlysiau ar gyfer coginio a meddyginiaeth.*  
**Gweithredu: APCE, Plantlife.**
- 1 *Cysylltiadau diwylliannol, llên gwerin a chymdeithasol planhigion a'u defnyddiau.*  
**Gweithredu: APCE, Plantlife.**

**Gweithrediad****Ffynonellau Ariannu a Chyngor Posib**

- 1 *Statudol: CCGC, APCE.*
- 1 *Anstatudol: Flora Locale, Fauna for Flora, Plantlife.*
- 1 *Eraill: Loteri.*

**Corff Cydlynau**

- 1 *APCE.*

**Manteision**

- 1 *Gwella ansawdd cynefinoedd gerddi ar gyfer bywyd gwyllt.*
- 1 *Annog pobl i gael profiad o fywyd gwyllt Eryri.*
- 1 *Gwella gwerthfawrogiad o bwysigrwydd defnyddiau tir cynaladwy a rôl garddio bywyd gwyllt mewn diogelu'r Bioamrywiaeth Lleol.*

- 1 *Provide information regarding existing wildlife gardening services.*  
**Action: SNPA.**

**Future Research and Monitoring**

- 1 *Map the extent of different categories of gardens in Snowdonia every 10 years to detect qualitative and quantitative changes.*  
**Action: Local schools and colleges.**

**Communication and Publicity**

- 1 *Raise awareness of Snowdonia's local Biodiversity, especially the guide to good wildlife gardening and Building Habitat Action Plan. HA1*  
**Action: SNPA, CCW, NWWT.**
- 1 *Promote the traditional concepts and practices of Welsh gardening, especially the growing of culinary and medicinal herbs and fruit trees.*  
**Action: SNPA, Plantlife.**
- 1 *The cultural, folkloric and social associations of useful plants and practices.*  
**Action: SNPA, Plantlife.**

**Implementation****Sources of Possible Funding and Advice**

- 1 *Statutory: CCW, SNPA.*
- 1 *Non-statutory: Flora Locale, Fauna for Flora, Plantlife.*
- 1 *Other: Lottery.*

**Co-ordinating Body**

- 1 *SNPA.*

**Benefits**

- 1 *Improved quality of garden habitats for wildlife.*
- 1 *Encourage people to experience Snowdonia's wildlife.*
- 1 *Improved appreciation of the importance of sustainable land use and the role of wildlife gardening in protecting local Biodiversity.*







## Mwyngloddiau a Gwastraff Mwyngloddio

### Statws Presennol

#### Disgrifiad

Mae mwyngloddiau segur a thomenni gwastraff cysylltiedig yn Eryri yn gynefinoedd "gwneud", ac arbenigol iawn yn aml, i amryw o blanhigion ac anifeiliaid y mae eu bodolaeth ac/neu eu goroesiad yn dibynnu arnynt.

Yr ystlum yw'r mamolyn y byddwch yn fwyaf tebygol o'i weld o dan y ddaear. Mae mynedfeydd a siafftau yn safleoedd eithaf tawel er mwyn i nifer o rywogaethau ystlumod Eryri gael paru, clwydo a gaeafgysgu. Ymhlith y rheiny mae'r ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*), ystlum y dŵr (*Myotis daubentonii*) ac ystlum Natterer (*Myotis nattereri*). Maent oll yn dibynnu ar safleoedd tan ddaear. Yn wreiddiol fe fyddai'r ystlumod hyn wedi byw mewn ogofâu, ond gall gweithfeydd mwyngloddio Eryri fod yn leoedd delfrydol iddynt i aeafgysgu, heidio yn yr hydref a nythu ar adegau.

Mae mwyngloddiau hefyd yn safleoedd nythu addas ar gyfer nifer o adar, gan gynnwys y cudyll coch (*Falco tinnunculus*), mwyalchen y mynydd (*Turdus torquatus*), y gigfran (*Corvus corax*), y wrenol ddu (*Apus apus*) a'r frân goesgoch (*Pyrhocorax pyrrhocorax*). Weithiau bydd y dylluan wen (*Tyto alba*) yn crwydro adeiladau'r cloddfeydd segur. Ystyrir bod rhai safleoedd mwyngloddio penodol o bwysigrwydd cenedlaethol drwy gynnal statws gweddill poblogaeth bridio mewndirol y frân goesgoch yn Eryri.

Ni wyddom ryw lawer am ddi-ddordeb anifeiliaid di-asgwrn-cefn mewn safleoedd mwyngloddio metellog. Mae'r rhywogaethau a gofnodwyd yn achlysurol o dan y ddaear yn cynnwys corryn yr ogof (*Meta menardi*) a gwylfyn yr herald (*Scoliopterix libatrix*). Mae gwybed y madarch (*Mycetophilidae*) hefyd yn gyffredin fel arfer.

Mae gweddillion adeiladau cerrig, waliau a rwbwl cwrs sydd yn y mwyngloddfeydd yn gynefin pwysig i gennau amrywiol, fel y *Gyalidea subscutellaris* sy'n genedlaethol brin, a rhedyn prin fel rhedyn y graig (*Asplenium septentrionale*). Mae lleoliadau'r gweithfeydd mwyn yn Eryri gyda'r pwysicaf ar gyfer y rhedyn hwn yn y DU.

Mae swbstradau metellog a ganfyddir yn sgîl gwastraff mwyngloddio yn bwysig yn nosbarthiad amrywiol blanhigion metaloffyt prin fel codywasg yr Alpau (*Thlaspi caerulescens*) a thywodwlydd y gwanwyn (*Minuartia verna*), gludlys arfor (*Silene maritima*) a'r archmain (*Armeria maritima*), caldris llydanddail (*Epipactis helleborine*), mwsoglau metaloffyt *Ditrichum plumbicola* a *Philonotis tomentella* sy'n fân, fân ac yn genedlaethol brin, a'r cennau metaloffyt, *Cephaloziella massalongi* a *Cephaloziella nicholsonii* y gellir eu canfod yn bennaf ble mae gwastraff gwaith copr, a'r *Cephaloziella stellulifera*.

Mae tyfiant cennog cyfoethog yn ffynnu ar ddarnau mân sydd â lefel uchel o lygredd metel ynddynt. Mae nifer o rywogaethau nodedig ymhlith y tyfiant cennog sy'n byw ar wastraff mwyngloddiau yn ogystal â metaloffytau cyffredin, megis y *Sarcosagium campestre*. Mae arolygon cen o hen wastraff mwyngloddfeydd yn sôn am gofnodion "newydd" yng ngogledd Cymru o hyd, fel y rhywogaeth metaloffyt, *Lecanora subaurea*, y daethpwyd o hyd iddi'n ddiweddar ger gwastraff mwyngloddio ar lethrau deheuol Eryri.

## Mines and Mine Wastes

### Current Status

#### Description

Snowdonia's abandoned mines and associated waste tips provide artificial, often highly specialised habitats for a range of plants and animals whose existence and/or survival is dependent on them.

Bats are the most likely mammals to be encountered underground. Adits and shafts provide relatively undisturbed mating, roosting and hibernation sites for several of Snowdonia's bat species, including the lesser horseshoe bat (*Rhinolophus hipposideros*), Daubenton's bat (*Myotis daubentonii*) and Natterer's bat (*Myotis nattereri*), all of which have a major reliance on underground sites. Originally these bats would have been cave-dwellers but in Snowdonia, large abandoned mine systems can provide ideal conditions for hibernacula, autumn swarming and, on occasions, maternity roosts.

Mines also provide suitable nesting sites for several bird species, including kestrel (*Falco tinnunculus*), ring ouzel (*Turdus torquatus*), raven (*Corvus corax*), swift (*Apus apus*) and chough (*Pyrhocorax pyrrhocorax*). Barn owls (*Tyto alba*) are sometimes associated with disused mine buildings. Certain mine sites are considered to be of national importance in at least maintaining the status of the relict inland breeding population of chough in Snowdonia.

Little is known about the invertebrate interest of metalliferous mine sites. Casual records made underground include cave spiders (*Meta menardi*) and the herald moth (*Scoliopterix libatrix*). Fungus gnats (*Mycetophilidae*) are also usually common.

The remains of stone buildings, walls and coarse spoil associated with mines provide an important habitat for lichens such as the nationally rare *Gyalidea subscutellaris* and ferns such as the rare forked spleenwort (*Asplenium septentrionale*). The mine workings in Snowdonia are amongst the most important sites for this fern in the UK. Metalliferous substrates found in association with mine waste are important in the distribution of various metallophyte plants such as the scarce alpine penny-cress (*Thlaspi caerulescens*) and spring sandwort (*Minuartia verna*), the coastal sea campion (*Silene maritima*) and sea pink (*Armeria maritima*), broad-leaved helleborine (*Epipactis helleborine*), the minute and nationally scarce metallophyte mosses, *Ditrichum plumbicola* and *Philonotis tomentella*, and the metallophyte liverworts, *Cephaloziella massalongi* and *C. nicholsonii*, both of which are found chiefly in association with copper mine waste, and *C. stellulifera*.

A very rich lichen flora is also often associated with the highly metal-polluted fines. The lichen flora of mine waste includes many notable species as well as typical metallophytes such as *Sarcosagium campestre*. Lichen surveys of old mine wastes are still turning up 'new' records for North Wales, such as the metallophyte species, *Lecanora subaurea*, recently found in association with mine waste on the southern slopes of Snowdon.





Mae ffyngau cwpanog yn gyffredin mewn priddoedd graeanog sydd wedi'u gorchuddio â mwsogl mewn gwastraff mwyngloddfeydd, tra bo rhywogaethau fel ffwng y mêl (*Armillaria mellea*) a *Neolentinus lepideus* i'w canfod ble ceir trawstiau cynnal yn pydru.

Mae rhai safleoedd mwyngloddio metellog o bwysigrwydd gwyddonol oherwydd eu hamrywiaeth microbaidd. Ymysg yr ecosystemau microbaidd mwyaf diddorol y mae'r rhai hynny sydd yn bodoli ar "cemolithotroffii" (sef 'bwydo ar graig' yn llythrennol), ble y gall rhai bacteria arbenigol fel *Thiobacillus ferrooxidans* a *Leptospirillum ferrooxidans* fyw drwy ddiraddio mwynau (sy'n rhoi eu hegni iddynt). Trwy wneud hynny, maent yn sefydlu sylfaen i gadwyn fwyd sy'n wahanol iawn i'r un sy'n seiliedig ar ffotosynthesis.

Mae'r cronfeydd dŵr mwyn yng Nghoedwig Gwydir yn gwneud cyfraniad arbennig i amrywiaeth y cynefinoedd dyfrol yn Eryri.

Gall safleoedd chwareli fod o ddiddordeb cydnabyddedig oherwydd eu diddordeb archeolegol a mwynddiaeth diwydiannol.

### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys. Dosbarthiad byd-eang o fwyngloddiau er bod mwyngloddiau metellog sy'n gynefinoedd yn arbennig o brin dros ogledd-orllewin Ewrop gyfan.
- 1 Cenedlaethol: Anhysbys (dim ffigurau ar gael ar gyfer y DU). Mae 1212 o hen fwyngloddfeydd metellog yng Nghymru. Mae gweithgareddau mwyngloddio yn effeithio ar tua 2,000 hectar o dir yng Nghymru.
- 1 Eryri: Mae 271 o fwyngloddfeydd metellog yn Eryri. Mae gwaith mwyngloddio yn effeithio ar tua 68.4 hectar o dir yn Eryri.

### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: Anhysbys.
- 1 Eryri: UCHEL.

### Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y cynefin hwn ar gyfer bywyd gwyllt.
- 1 Gall adfer tir yn anystyriol mewn safleoedd mwynglawdd segur olygu y gall ystumod gollu eu mynedfa i safleoedd tanddaear a difrodi tomenni rwbwl sy'n gyfoethog o feteloffyt.
- 1 Gosod griliau, gatau neu ffensys mewn safleoedd tanddaear sy'n anaddas i ystumod neu frain coesgoch.
- 1 Dirywio cynefin drwy ddiffyg cynnal a chadw, coed conwydd ymwithiol ayb.
- 1 Pobl yn tarfu ar ystumod neu fywyd gwyllt arall yn ddirifol drwy gynnal archwiliadau cloddfeydd tanddaear a gweithgareddau hamdden.
- 1 Gall selio mynedfa i gloddfeydd gyfyngu ar batrymau llif yr aer.
- 1 Newid mewn lefelau dŵr (gan gynnwys draenio a gorlifo mewn mynedfeydd).
- 1 Anhawster cael mynediad i safleoedd tanddaear at ddiben gwneud arolwg/monitro ar sail lechyd a Diogelwch.
- 1 Newidiadau yn arferion rheoli tir y tiroedd cyfagos e.e. plannu coed (coedwigaeth), gwasgaru calch a gwrtaith ayb.

Cup fungi are commonly found in association with the moss-covered, gravelly soils associated with mine waste, whilst species such as honey fungus (*Armillaria mellea*) and *Neolentinus lepideus* may be found in association with rotting support timbers.

Some metalliferous mine sites are of scientific importance for their microbial diversity. Among the more fascinating microbial ecosystems are those based on 'chemolithotrophy' (literally 'rock-eating'), whereby some specialised bacteria such as *Thiobacillus ferrooxidans* and *Leptospirillum ferrooxidans* are able to live by degrading minerals (from which they obtain their energy) and, by doing so, provide the basis of a food chain which is very different from that based on photosynthesis.

The numerous mine reservoirs within the Gwydir Forest make a significant contribution to the range of aquatic habitats in Snowdonia.

Mine sites may also be of recognised importance for their industrial archaeology and mineralogy interest.

### Extent

- 1 International: Unknown. Widespread global distribution of mines although metalliferous mines as a habitat are extremely rare over the whole of NW Europe.
- 1 National: Unknown (no figures for UK). There are 1212 old metalliferous mines in Wales. Mining activities affect approximately 2,000 hectares of land in Wales.
- 1 Snowdonia: There are 271 metalliferous mines in Snowdonia. Mining activities affect approximately 68.4 hectares of land in Snowdonia.

### Priority

- 1 International: Unknown.
- 1 National: Unknown.
- 1 Snowdonia: HIGH.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Lack of awareness over the importance of this habitat for wildlife.
- 1 Unsympathetic land reclamation of derelict mine sites which may include loss of access to underground sites for bats and damage to metallophyte rich spoil heaps.
- 1 Inappropriate grilling, gating or fencing of underground sites for bats or chough.
- 1 Degradation of habitat through lack of maintenance, encroachment by conifers etc.
- 1 Excessive human disturbance to bats and other wildlife posed by underground mine exploration and recreational activities.
- 1 Sealing off mine entrances may restrict the airflow patterns.
- 1 Changes in water levels (including drainage and flooding of adits).
- 1 Difficulty in obtaining access to underground sites for survey/monitoring purposes on Health and Safety grounds.
- 1 Changes in land management practices on adjacent land e.g. tree planting (forestry), spreading of lime and fertiliser etc.





- 1 Gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon.
- 1 Pobl ac anifeiliaid yn sathru'r ddaear.

## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws Cyfreithiol

- 1 Mae gwarchodaeth statudol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar ddau safle mwyngloddio yn Eryri: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) Cors Copr Hermon, a SDdGA Aber-Llyn a Choed Mawr.
- 1 Mae pob rhywogaeth o ystumod a'u cynefinoedd yn cael eu gwarchod ym Mhrydain gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Gorchymyn Cynefinoedd a Rhywogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd.
- 1 Mae pob aderyn gwyllt, eu nythod a'u hwyau yn cael eu gwarchod ym Mhrydain gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Gwarchodir brain coesgoch bob amser, gan ddirwyon arbennig, drwy eu cynnwys yn Atodlen 1 y Ddeddf.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Rhaid ymgynghori â CCGC cyn cynnal unrhyw waith adfer i waith mwyn, datblygiad diwydiannol, neu unrhyw welliannau arfaethedig i safle ble mae yno ddiddordeb gwybyddus neu botensial ar gyfer ystumod.

### Amcanion

- 1 Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y safleoedd mwyngloddio fel cynefin i fywyd gwyllt.
- 1 Darparu gwell gwarchodaeth i safleoedd mwyngloddio fel cynefin i fywyd gwyllt.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Parhau i ddiogelu cynefinoedd safleoedd mwyngloddio drwy ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol priodol.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, GYG.**
- 1 Sicrhau y dynodir safleoedd mwyngloddio yn Eryri yn SDdGA a SAC ble y byddant yn cwrdd â'r meini prawf dethol o ran ystumod, metaloffytiau ayb.  
**Gweithredu: CCGC.**
- 1 Gofalu fod y rhywogaethau nodedig i gyd e.e. ystumod, brain coesgoch, metaloffytiau ayb. wedi eu diogelu o fewn Cynllun Rheoli APCE yn erbyn cynigion yn y dyfodol am gynlluniau adfer cloddfeydd/tir neu unrhyw gynnyg arall sy'n cynnwys safleoedd o'r fath.  
**Gweithredu: APCE.**

### Rheoli a Diogelu Rhywogaeth a Phrynu Tir

- 1 Sicrhau bod tirlfeddianwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd bywyd gwyllt.  
**Gweithredu: GYG, CGA, CCGC, APCE.**
- 1 Gosod griliau "ystlum-gyfeillgar" priodol ar fynedfa i gloddfeydd (gyda lle ar gyfer monitro) yn unol ag anghenion lechyd a Diogelwch.  
**Gweithredu: CCGC, CC, APCE, ADC, YG, Tirlfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd.**
- 1 Gosod griliau priodol (gyda lle ar gyfer monitro) ar fynedfa cloddfeydd ar gyfer unrhyw safleoedd nythu brain coesgoch lle mae'r arfer o gasglu wyau neu fynediad i'r cyhoedd yn achosi i barau fethu â bridio dro ar ôl tro.  
**Gweithredu: CGA, APCE, CCGC, ADC.**

- 1 Illegal fly tipping.
- 1 Trampling by humans and livestock.

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 Two mine sites in Snowdonia are afforded statutory protection under the Wildlife and Countryside Act 1981: Hermon Copper Bog SSSI, and Aber-Llyn and Coed Mawr SSSI.
- 1 All species of bat and their habitats are fully protected in Britain under the Wildlife and Countryside Act 1981 and the EC Habitats and Species Directive.
- 1 All wild birds, their nests and their eggs are protected in Britain under the Wildlife and Countryside Act 1981. Chough are protected at all times, by special penalties, through inclusion in Schedule 1 of the Act.

### Management, Research and Guidance

- 1 CCW must be consulted prior to undertaking mine restoration work, industrial development, or any proposed alteration to a site where there is any known or potential bat interest.

## Objectives

- 1 Raise awareness of the importance of mine sites as a habitat for wildlife.
- 1 Afford greater protection of mine sites as a habitat for wildlife.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Pursue the safeguard of mine site habitats through appropriate national and international legislation.  
**Action: CCW, SNPA, GBG.**
- 1 Ensure the designation of mine sites as SSSIs and SACs within Snowdonia where the selection criteria are met with regard to bats, metallophytes etc.  
**Action: CCW.**
- 1 Ensure that all notable species e.g. bats, chough, metallophytes etc. are safeguarded within the SNPA Management Plan against future proposals for mine/land reclamation schemes or any other proposal involving such sites.  
**Action: SNPA.**

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Ensure landowners are made aware of the wildlife importance.  
**Action: GBG, RSPB, CCW, SNPA.**
- 1 Fit appropriate 'bat friendly' grills on mine entrances (with access for monitoring where possible) in accordance with Health and Safety requirements.  
**Action: CCW, FC, SNPA, WDA, NT, Landowners and mine operators.**
- 1 Fit appropriate grills (with access for monitoring) on mine entrances to any chough nest sites where egg-collecting or public access cause continual failure of breeding pair.  
**Action: RSPB, SNPA, CCW, WDA.**





- 1 Ystyried gosod griliau mewnol lle bo'n briodol h.y. safleoedd a ddefnyddir yn aml gan grwpiau gweithgareddau awyr agored, er mwyn llai o aflonyddu ar ystlumod a gyrru pwysau ymwelwyr i ffwrdd oddi wrth y manau mwyaf sensitif.  
**Gweithredu: CCGC, CC, APCE, ADC, YG, Tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd, Canolfannau gweithgareddau awyr agored/addysgol.**
- 1 Annog cytundebau mynediad tymhorol ble y mae gormod o aflonyddu yn broblem, neu'n debygol o fod yn broblem.  
**Gweithredu: CCGC, GYG, APCE, canolfannau gweithgareddau awyr agored/addysgol.**
- 1 Sicrhau nad yw mynedfa cloddfeydd sydd o ddiddordeb ystlumod hysbys yn cael eu draenio heb ganiatâd y CCGC.  
**Gweithredu: CC, APCE, ADC, GYG, AyrA, canolfannau gweithgareddau awyr agored/addysgol.**
- 1 Cadw trawstiau to neu nodweddion eraill ble y mae'r rhain yn nodwedd allweddol o safle nythu brain coesgoch.  
**Gweithredu: CGA, ADC, Tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd.**
- 1 Gwarchod holl safleoedd mwyngloddio addas rhag cael eu capio, rhag gwaredu gwastraff, neu unrhyw weithrediad arall a fyddai'n tanseilio eu haddasrwydd ar gyfer ystlumod, brain coesgoch neu metaloffytau.  
**Gweithredu: CC, APCE, ADC, CCGC, canolfannau gweithgareddau awyr agored / addysgol.**
- 1 Codi blychau i nythod priodol ar gyfer brain coesgoch, ac yna eu cynnal a'u cadw.  
**Gweithredu: CGA, COS, NWBMT.**
- 1 Clirio prysgoed a choed o'r manau union gerllaw mynedfa cloddfeydd sy'n safleoedd hysbys neu botensial ar gyfer bridio brain coesgoch, ble y gall y fath dyfiant amharu arnynt, ar ôl cysylltu gyda CCGC a Grŵp Ystlumod Gwynedd ynglŷn â'u pwysigrwydd i ystlumod.  
**Gweithredu: CGA, CCGC, GYG.**
- 1 Gofalu nad yw gwastraff segur a gaiff ei gynhyrchu gan waith adferol yn cael eu gadael mewn manau o ddiddordeb botanegol.  
**Gweithredu: CC, APCE, ADC, Tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd.**
- 1 Bod yn ystyriol o hen safleoedd mwyngloddio wrth ymgynghori ar chwistrellu rhedyn yn y dyfodol. Gofalu bod lleiniau digyffwrdd addas yn cael eu pennu os oes chwistrellu o'r awyr yn digwydd yng nghyffiniau hen safleoedd mwyngloddio sydd â diddordeb rhedyn hysbys neu debygol.  
**Gweithredu: AyrA, APCE, CCGC, CC, Tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd.**
- 1 Codi ffensys i warchod tyfiant metaloffyt sydd mewn perygl o gael ei niweidio rhag cael ei sathru mewn manau ble mae'n debyg y bydd mynediad cynyddol i'r cyhoedd.  
**Gweithredu: CC, APCE, CCGC, Tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd.**
- 1 Annog tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd i helpu i warchod ystlumod, brain coesgoch a metaloffytau drwy gynnal cynefinoedd cynrychioladol ar gyfer y rhywogaethau hynny sydd ar eu heiddo.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, Tirfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd.**
- 1 Consider fitting internal grills where appropriate i.e. sites frequently used by outdoor pursuits groups to minimise disturbance to bats and channel visitor pressure away from most sensitive areas.  
**Action: CCW, FC, SNPA, WDA, NT, Landowners and mine operators, outdoor pursuit/education centres.**
- 1 Encourage seasonal access agreements where excessive disturbance to bats is or is likely to be a problem.  
**Action: CCW, GBG, SNPA, outdoor pursuit/education centres.**
- 1 Ensure that mine adits with known bat interest are not drained without consent from CCW.  
**Action: FC, SNPA, WDA, GBG, EA, outdoor pursuit/education centres.**
- 1 Maintain roof support timbers or other features where these are a key feature of a chough nesting-site.  
**Action: RSPB, WDA, Landowners and mine operators.**
- 1 Protect all suitable mine sites from mine-capping, tipping, or any other operation which would undermine their suitability for bats, chough or metallophytes.  
**Action: FC, SNPA, WDA, CCW, outdoor pursuit/education centres.**
- 1 Erect appropriate nest boxes for chough and maintain thereafter.  
**Action: RSPB, COS, NWBMT.**
- 1 Clear scrub or trees from immediate vicinity of mine entrances of all known or potential chough breeding sites where such growth may render them unsuitable after liaising with CCW and GBG regarding the importance for bats.  
**Action: RSPB, CCW, GBG.**
- 1 Ensure that inert wastes generated from future reclamation works are not dumped on areas of botanical interest.  
**Action: FC, SNPA, WDA, Landowners and mine operators.**
- 1 Consider old mine sites in future bracken spraying consultations. Ensure that adequate buffer zones are imposed where aerial spraying in vicinity of old mine sites with known or likely fern interest.  
**Action: EA, SNPA, CCW, FC, Landowners and mine operators.**
- 1 Erect fences to protect vulnerable metallophyte flora from trampling where increased public access is likely.  
**Action: FC, SNPA, CCW, Landowners and mine operators.**
- 1 Encourage landowners and mine operators to contribute to the conservation of bats, chough and metallophytes by maintaining representative habitats for those species present on their properties.  
**Action: SNPA, CCW, Landowners and mine operators.**





- 1 Gwarchod a chynnal a chadw cronfeydd dŵr cloddfeydd pan fo hynny'n ymarferol.  
**Gweithredu: CC, APCE, CCGC, ADC, AyrA, canolfannau gweithgareddau awyr agored/addysgol.**
- 1 Gwneud gwelliannau i gynefinoedd nifer o safleoedd allweddol.  
**Gweithredu: APCE, CC.**

### Cynghori

- 1 Cynghori tîrfeddianwyr/deiliaid tir ar bwysigrwydd safleoedd mwyngloddio fel cynefinoedd bywyd gwyllt.  
**Gweithredu: APCE, CC, CCGC, CGA.**

### Ymchwil a Monitro i'r Dyfodol

- 1 Casglu cronfa ddata o systemau cloddfeydd ac archwilio archifau o fapiau'r lleoedd a adawyd ayb. er mwyn gallu targedu'r gwaith arolygu yn drefnus.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, GYG.**
- 1 Gwneud arolwg o safleoedd mwyngloddio tanddaear er mwyn asesu'r potensial ar gyfer yr ystum pedol lleiaf. (Blaenoriaeth yn cael ei roi i'r safleoedd hynny o fewn radiws o 1km i'r holl glwydi meithrin hysbys).  
**Gweithredu: GYG, CCGC, APCE, ADC, CC, YG, Tîrfeddianwyr a gweithwyr y cloddfeydd**
- 1 Gwneud arolwg o fynedfeydd cloddfeydd er mwyn asesu'r potensial ar gyfer brain coesgoch sy'n bridio.  
**Gweithredu: CGA, COS, NWBMT.**
Mae planhigion llysieuog tal yr ucheldir yn tyfu mewn mannau sy'n anodd eu cyrraedd fel arfer, ar ochr dibyn neu mewn ceunant, lle mae'r creigiau yn eu cadw rhag effeithiau pori neu losgi ac yn annog iddynt dyfu'n doreithiog ac ir. O ganlyniad, mae'r perthi fel arfer yn fach a darniog a chyfansoddiad bob un yn unigryw. Y goedfrwynen fawr (*Luzula sylvatica*) sydd fwyaf nodweddiadol o'r gymuned blanhigion hon, ond mae twf rhywogaethau eraill yn dibynnu ar ba mor faethus yw'r pridd a'r creigiau odano. Mewn pridd llai maethus, llus (*Vaccinium myrtillus*) sy'n tyfu fwyaf, gyda'r friwydden wen (*Galium saxatile*) a brigwellt main (*Deschampsia flexuosa*) hefyd yn gyffredin (NVC U16). Mewn pridd mwy maethus, mae'r gymuned yn fwy toreithiog o rywogaethau, gyda phlanhigion mwy a thalach yn nodweddiadol ac yn gwneud i lethrau'r creigiau edrych fel 'gerddi crog' (NVC U17). Mae'r planhigion mwyaf cyffredin yn nheulu NVC U17 ac yn cynnwys llys yr angel (*Angelica sylvestris*), pren y ddannoedd (*Sedum rosea*), mantell Fair (*Alchemilla glabra*), yr eurwialen (*Solidago virgaurea*), a suran y mynydd (*Oxyria digyna*). Gall rhedynau, mwsoglau a llysiâu'r afu fod yn niferus iawn hefyd gyda phlanhigion arctig-alpaidd yn tyfu'n aml ar ochrau llai cysgodol silffoedd y creigiau. Mae perthi bychain ynghyd â choed crafol a bedw ifanc weithiau'n tyfu ar y silffoedd lletach.

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: Tyfu'n eang ond mewn mannau neilltuol ledled mynyddoedd oer, gwlyb gogledd Prydain, llai cyffredin yn Eryri nag yn Ucheldir yr Alban.
- 1 Eryri: Planhigion cymharol brin, yn tyfu'n bennaf ar ben y Glyderau, Yr Wyddfa, ar y Carneddau a Chadair Idris, lle mae'r uchder a'r creigiau serth yn gynefin addas.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: UCHEL. Cynefin allweddol dan y Cyfarwyddyd Cynefin Ewropeaidd (1992).
- 1 Cenedlaethol: UCHEL.
- 1 Eryri: UCHEL. Eryri yw terfyn deheuol y gymuned blanhigion hon ym Mhrydain, ac er nad oes yma dyfiant mor doreithiog ag yn yr Alban er enghraifft, mae'n bwysig fod planhigion tal silffoedd creigiau yn cael eu gwarchod yn yr ardal hon.

### Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Pori trwm gan ddefaid, sy'n cyfyngu'n arw ar ledaeniad y planhigion hyn.
- 1 Gall diffyg taldra a natur gymharol ynysig y planhigion hyn effeithio ar atgenhedlu ac amrywiaeth rhywogaeth y gymuned blanhigion hon.
- 1 Pori posib gan eifr gwylltion.

## Tall Herb and Ledge Communities

### Current status

#### Description

Tall herb and ledge communities in the uplands are found in rather inaccessible situations, for example on cliff ledges or in ravines, where the broken topography provides protection from grazing and burning, allowing the often luxuriant growth of its palatable herbs. Consequently the stands are usually small and fragmented and often have a locally distinctive composition. Great woodrush (*Luzula sylvatica*) dominates this community, but the presence of other species depends on whether the underlying rocks and soil are base-rich or base-poor. On the latter, bilberry (*Vaccinium myrtillus*) is the main associate, with heath bedstraw (*Galium saxatile*) and wavy hair-grass (*Deschampsia flexuosa*) also commonly occurring (NVC U16). On more base-rich soils, the community is more species rich, with larger herbs predominating and giving the vegetation the appearance of 'hanging gardens' high on mountain ledges (NVC U17). The species most frequently occurring in NVC U17 include, wild angelica (*Angelica sylvestris*), roseroot (*Sedum rosea*), ladies mantle (*Alchemilla glabra*), goldenrod (*Solidago virgaurea*) and mountain sorrel (*Oxyria digyna*). Ferns, moses and liverworts can locally be abundant and arctic-alpine plant species are often found around the less shaded margins of the ledges. Small bushes and saplings of rowan and birch sometimes become established on the larger ledges.

#### Extent

- 1 International: Not known.
- 1 National: Widespread but local throughout the cold, wet mountains of northern Britain, but it is less well developed in Snowdonia than in the Scottish Highlands.
- 1 Snowdonia: A relatively rare community, found mainly on the large upland sites of Glyderau, Yr Wyddfa, Carneddau and Cadair Idris, where steep cliffs at altitude provide suitable habitat.

#### Priority

- 1 International: HIGH. Key habitat under the Habitats Directive.
- 1 National: HIGH.
- 1 Snowdonia: HIGH. Snowdonia is effectively the southern limit in the UK for this community, so although not producing stands as rich as those further north, it is important that tall-herb ledge vegetation is protected in this area.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Heavy grazing by sheep severely restricts the extent of this community.
- 1 Small size and relative isolation of vegetation stands may affect reproduction and species richness of this community.
- 1 Possible grazing by feral goats.





## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithiol

- 1 Mae planhigion tal silffoedd creigiau yn nodwedd o AGA Eryri ac yn tyfu mewn amryw o Warchodfeydd Natur a SDdGA.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Mae cytundebau rheoli yn Eryri yn ysgafnu'r pwysau pori ar amryw o ffermydd yn yr ucheldir.
- 1 Mae arolygu'r safleoedd hyn yn anodd, ond mae ychydig o waith wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf i nodi cyfansoddiad ac amrywiaeth y planhigion hyn yn Eryri (gan gynnwys ymchwil penodol yn y 1960au ar Ysgolion Duon).

### Amcanion

- 1 Sicrhau nad yw'r gymuned blanhigion hon yn dirywio a hwyluso ei lledaeniad.
- 1 Hel gwybodaeth ar ledaeniad a statws y planhigion hyn yn Eryri.
- 1 Sicrhau fod thirfeddianwyr, cyrff hamdden a mudiadau statudol ac anstatudol yn gwybod am bwysigrwydd y cynefin hwn.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Sicrhau fod unrhyw gynlluniau amaeth-amgylcheddol i'r dyfodol yn cymryd pwysigrwydd y cynefin hwn i ystyriaeth wrth baratoi cytundebau a chynlluniau rheoli.

**Gweithredu: CCGC, APCE.**

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Hybu rhagor o gytundebau rheoli gyda thirfeddianwyr yn yr ucheldir i ysgafnu pwysau pori, yn enwedig ar dir gyda'r mwyaf o botensial i'r math hwn o dyfiant ledi.
- Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**
- 1 Cwblhau dynodiad Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig yn yr ucheldir erbyn y flwyddyn 2000.
- Gweithredu: CCGC.**

### Cynghori

- 1 Hybu pwysigrwydd y cynefin hwn gyda thirfeddianwyr.
- Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**
- 1 Sicrhau fod gweithgareddau hamdden yn cael cyn lleied o effaith â phosib trwy gynghori ac addysgu.
- Gweithredu: APCE, YG, CCGC, CBN.**

### Ymchwil a Monitro i'r dyfodol

- 1 Datblygu strategaeth arolygu ar gyfer y cynefin hwn i sefydlu ei ledaeniad a'i statws yn Eryri. Oherwydd anawsterau gweithio yn yr amgylchfyd hwn, diau mai prosiect hirdymor fydd hyn ond mae angen rhoi blaenoriaeth uchel iddo.
- Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**
- 1 Annog ymchwil i gyfansoddiad ac amrywiaeth lleol planhigion y ddau fath o NVC yn Eryri.
- Gweithredu: CCGC, APCE, YG, CBN.**

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 Tall herb ledge vegetation is a feature of the Eryri cSAC and well represented in a number of NNRs and SSSIs.

### Management, Research and Guidance

- 1 Management agreements in Snowdonia are resulting in reductions in grazing pressure over many land-holdings in the uplands.
- 1 Survey of these sites is difficult, but some work has been undertaken over the past few years to characterise the composition and variation of this vegetation type in Snowdonia (including specific research in the 1960s on Ysgolion Duon).

### Objectives

- 1 Ensure there is no loss in extent of this community and facilitate its extension from its current limited base.
- 1 Collate information on the extent and status of this community in Snowdonia.
- 1 Ensure that owners/occupiers, recreationalists, statutory and non-statutory agencies are aware of the importance of this habitat.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Ensure any future agri-environment schemes take the importance of this habitat into account in the preparation of any management agreements and plans.

**Action: CCW, SNPA.**

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Promote the uptake of management agreements by owners/occupiers in the uplands, to reduce grazing levels and pressure, especially on land with the most potential for extension of this vegetation type.
- Action: CCW, SNPA, NT.**
- 1 Complete designation of upland SACs by the year 2000.

**Action: CCW.**

### Advisory

- 1 Promote the importance of this habitat to land owners and managers.
- Action: CCW, SNPA, NT.**
- 1 Ensure that recreational impacts are minimised by advice and education.
- Action: SNPA, NT, CCW, NWWT.**

### Future Research and Monitoring

- 1 Develop a survey strategy for this habitat to establish its extent and status in Snowdonia. Due to the difficulties of working in this environment, this will of necessity be a long-term project, but it requires a high priority.
- Action: CCW, SNPA, NT.**
- 1 Encourage research into the species composition and local variations in Snowdonia of both NVC types.
- Action: CCW, SNPA, NT, NWWT.**



- 1 Sefydlu nifer o safleoedd monitro i asesu effaith llai o bori ar blanhigion sillff potensial.

**Gweithredu: CCGC.**

#### **Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd**

- 1 Cynyddu gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r cynefin hwn trwy ei gynnwys mewn cyhoeddiadau arbennig. (Bydd angen cymryd gofal am fod tuedd i bobl hel planhigion o'r cynefin hwn).

**Gweithredu: APCE, YG, CCGC, CBN.**

#### **Gweithredu**

##### **Ffynonellau Ariannu a Chyngor**

- 1 Statudol: CCGC, APCE, AASG.
- 1 Anstatudol: YG, CBN, Plantlife.
- 1 Eraill: Grantiau Ewropeaidd gan LIFE.

##### **Corff Cydlynu**

- 1 CCGC.

##### **Manteision**

- 1 Cynnal ystod ddaearyddol y cynefin hwn trwy warchod y safleoedd mwyaf deheuol.
- 1 Cynyddu amrywiaeth a harddwch gweledol porfeydd ucheldir Eryri.
- 1 Cynnal amrywiaeth genedig y planhigion sy'n gysylltiedig â'r cynefin hwn.

- 1 Establish a number of monitoring sites to assess the effects of reduced grazing on sites of potential tall herb ledge vegetation.

**Action: CCW.**

#### **Communication and Publicity**

- 1 Increase public appreciation of this habitat by inclusion in selected publications. (Care will be needed due to the potential for plant collecting from this attractive habitat).

**Action: SNPA, NT, CCW, NWWT.**

#### **Implementation**

##### **Sources of Possible Funding and Advice**

- 1 Statutory: CCW, SNPA, WOAD.
- 1 Non-statutory: NT, NWWT, Plantlife.
- 1 Other: European funding from LIFE.

##### **Co-ordinating Body**

- 1 CCW.

##### **Benefits**

- 1 Maintenance of the geographic range of this habitat by protecting the southernmost sites.
- 1 Increase in diversity and aesthetic quality of the sheep grazed uplands of Snowdonia.
- 1 Maintenance of genetic diversity of species associated with this habitat.









## Mignen

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Term cyffredinol yw mignen neu figneint (lluosog) am dir mawn lle mae'r ddaear yn rheolaidd neu'n barhaol wlyb oherwydd glaw di-baid, draeniad gwael a thabl dŵr uchel. Fel arfer ceir mignen ar uchder o rhwng 250-700 medr, pur anaml ar lethrau mwy serth na 15 gradd. Mae'r tyfiant wedi ei nodweddu gan rug (*Calluna vulgaris*), grug y mêl (*Erica tetralix*), glaswellt y ceirw (*Scirpus cespitosus*), plu'r gweunydd (*Eriophorum vaginatum* a *E. angustifolium*) a glaswellt y bwla/crawcwellt (*Molinia caerulea*). Mae'r planhigion hyn fel arfer yn tyfu gyda'i gilydd gyda'r mwyaf toreithiog yn dibynnu ar uchder, gwlybni'r ddaear a draeniad y pridd.

Gwelir mignen yn aml rhwng creigiau, glaswelltir asid a rhostir mynydd. Mewn rhai mannau yn Eryri, mae migneint yn dirywio ac yn erydu, gan arwain at ddarnio a dihybyddu'r cynefin.

Mae presenoldeb ac amrywiaeth y planhigion, adar, creaduriaid di-asgwrn cefn a'r mân dyfiant, yn enwedig mathau o fwsog migwyn (*Sphagnum*), yn arwydd pwysig o ansawdd y cynefin hwn. Mae rhywogaethau eraill yn cynnwys rhosmari gwyllt (*Andromeda polifolia*), y boda tinwyn (*Circus cyaneus*), y gwalch bach (*Falco columbarius*), yr ehedydd (*Alauda arvensis*), cornicyll y mynydd (*Pluvialis apricaria*), y dylluan glustiog (*Asio flammeus*) a glöyn mawr y waun (*Coenonympha tullia*) sy'n brin mewn ardaloedd eraill ond yn hoff o'r math yma o gynefin.

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: Mae gan ynysoedd Prydain rhwng 8-13% o'r holl figneint trwy'r byd (tua 1.5 miliwn hectar), y rhan fwyaf yn yr Alban. Mae'r rhan fwyaf o holl figneint yr Undeb Ewropeaidd ym Mhrydain.
- 1 Eryri: Anhysbys.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: UCHEL. Wedi ei restru ar Atodiad 1 o Gyfarwyddyd Cynefin yr UE.
- 1 Cenedlaethol: UCHEL. Cynefin prin dan fygythiad. Mae llawer o'r enghreifftiau Prydeinig yn bwysig iawn yn rhyngwladol ac yn gynefin i deuluoedd pwysig o adar, sy'n brin neu'n lleol iawn mewn mannau eraill.
- 1 ERYRI: UCHEL. Cynefin lleol gwerthfawr sy'n cynnal amryw o rywogaethau adar, planhigion a chreaduriaid di-asgwrn cefn sydd dan fygythiad yn lleol ac yn genedlaethol. Ym Mharc Cenedlaethol Eryri mae'r cynefin hwn, lle mae'n tyfu rhwng y rhostir, yn cynnal 33% o holl boblogaeth y boda tinwyn trwy Gymru. Mae corsydd y Migneint uwchben Llan Ffestiniog yn gynefin i holl boblogaeth fagu cornicyll y mynydd Gogledd Cymru.

### Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri.

- 1 Mae migneint yn dueddol o sychu o ganlyniad i dorri mawn, draenio, llosgi a phori, sy'n arwain yn aml at erydiad difrifol.

## Blanket Bog

### Current status

#### Description

Blanket bog is a general term for peat-forming ecosystems where the ground is periodically or permanently waterlogged by high rainfall, poor drainage and a high water table. Found usually between 250-700 metres they are seldom found on slopes greater than 15 degrees. The vegetation is dominated by heather (*Calluna vulgaris*), cross leaved heath (*Erica tetralix*), deer-grass (*Scirpus cespitosus*), the cotton grasses (*Eriophorum vaginatum* and *E. angustifolium*) and purple moorgrass (*Molinia caerulea*). These species are found in various combinations and dominance depending on the altitude & the degree of waterlogging and drainage. Blanket mire often occurs in a mosaic with rock outcrops, acid grassland and upland dry heath. In some parts of Snowdonia, blanket bog is subject to erosion and degradation resulting in the breakdown and fragmentation of the habitat.

The presence and variety of associated plants, birds, invertebrates and lower plants, particularly species of bogmoss (*Sphagnum spp.*), are important indicators of this habitat's quality. Notable species include bog rosemary (*Andromeda polifolia*), hen harrier (*Circus cyaneus*), merlin (*Falco columbarius*), skylark (*Alauda arvensis*), golden plover (*Pluvialis apricaria*), short eared owl (*Asio flammeus*) and the nationally scarce large heath butterfly (*Coenonympha tullia*) which is confined to this habitat.

#### Extent

- 1 International: Unknown.
- 1 National: The British Isles has between 8-13% of the total world resource of blanket bog (approximately 1.5 million hectares), of which most is located in Scotland. A major part of the total resource of blanket bog in the European Union occurs in the UK.
- 1 Snowdonia: Unknown.

#### Priority

- 1 International: HIGH. Listed under Annex 1 of the EC Habitats Directive.
- 1 National: HIGH. It is a rare and threatened habitat. Many of the British examples are of great international importance and support important bird communities which are rare or localised elsewhere.
- 1 Snowdonia: HIGH. It is a valued local habitat which supports several regionally and nationally endangered species of birds, plants and invertebrates. Within the SNP this habitat, where found in a mosaic with dry heath, supports 33% of the Welsh breeding population of Hen Harrier. Blanket mire on the Migneint supports the total North Wales population of breeding Golden Plover.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Mires are particularly susceptible to drying out through peat cutting, drainage, burning and grazing which frequently results in extensive erosion.





- 1 Arferion coedwigo yn y gorffennol.
- 1 Newid yn yr hin.
- 1 Effaith glaw asid.

## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithiol

- 1 Mae migneint yn nodwedd o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal o Gadwraeth Arbennig Eryri.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Mae cytundebau yn arwain at well dulliau rheoli gan gynnwys llai o bori, draenio a llosgi ar rai ffermydd.
- 1 Ymchwil gan y Gymdeithas Gwarchod Adar i'r grugiar ddu (*Tetrao tetrix*).
- 1 Prosiect ar y cyd dan arweiniad y Gymdeithas Gwarchod Adar yw un y Migneint, i ddiogelu'r cynefin ucheldir pwysig hwn, yn cynnwys y tirlun mawn a'i rywogaethau cysylltiedig.

### Amcanion

- 1 Hel data ar ehangder y migneint ym Mharc Cenedlaethol Eryri a sicrhau eu bod wedi eu gwarchod o dan ddeddfwriaeth gadwraeth.
- 1 Cynnal ehangder y migneint presennol.
- 1 Gwella ansawdd y migneint trwy gytundebau rheoli lle fo'n bosib.
- 1 Dod o hyd i safleoedd sy'n addas i'w hadfer, sef glaswelltir asid oedd unwaith yn fignen.
- 1 Pob sefydliad perthnasol i gytuno ar fonitro'r tyfiant a'r adar yn y cynefin hwn erbyn 2001.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Sicrhau y bydd Tir Gofal yn cynnwys mesurau nid yn unig i ddiogelu ond hefyd i wella ansawdd y cynefin hwn a'i rywogaethau cysylltiedig.
- Gweithredu: CCGC, AASG.**

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Sefydlu gwell dulliau rheoli ar gyfer y cynefin pwysig hwn trwy gytundebau rheoli, cyngor a grantiau.
- Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**
- 1 Sicrhau fod y manau gyda gwarchodaeth statudol yn cael eu diogelu'n iawn.
- Gweithredu: CCGC, APCE, AASG.**
- 1 Sicrhau fod cytundebau rheoli, yn cynnwys cytundebau mynediad, yn sensitif i ba mor fregus yw'r cynefin hwn a'i adar magu cysylltiedig.
- Gweithredu: CCGC, APCE, CGA.**
- 1 Adolygu terfynau presennol y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig).
- Gweithredu: CCGC.**

### Cynghori

- 1 Sicrhau fod tiffeddianwyr yn gwybod am bwysigrwydd y cynefin hwn a'i rywogaethau cysylltiedig, a rhoi cyngor ar sut i'w diogelu.
- Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**

- 1 Previous afforestation.
- 1 Climate change.
- 1 Acidification from acid rain.

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 Blanket bog is represented within SSSI's and the Eryri SAC.

### Management, Research and Guidance

- 1 Management agreements are resulting in improved management regimes including a reduction in grazing pressure, drainage and burning on some land holdings.
- 1 Research by the RSPB into Black Grouse (*Tetrao tetrix*).
- 1 The Migneint project proposed by the RSPB, is a collaborative project to maintain the international important upland habitats, including blanket bog landscapes and associated species of the Migneint.

## Objectives

- 1 Collate data on the extent of blanket bogs within SNP and ensure it is protected by conservation designations.
- 1 Maintain present area of blanket bog.
- 1 Improve quality of blanket bogs through management agreements wherever and whenever possible.
- 1 Identify areas suitable for restoration from acid grassland derived from blanket bog.
- 1 All interested parties to agree baseline monitoring of vegetation and breeding bird populations by 2001.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Ensure Tir Gofal includes prescriptions that will not only safeguard but enhance the quality of this habitat and its associated species.

**Action: CCW, WOAD.**

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Establish improved management regimes for this important habitat through management agreements, advice and funding.
- Action: CCW, SNPA, NT.**
- 1 Ensure all areas with statutory protection are adequately protected.
- Action: CCW, SNPA, WOAD.**
- 1 Ensure management agreements, which include access agreements, are sensitive to the fragility of this habitat and its breeding bird populations.
- Action: CCW, SNPA, RSPB.**
- 1 Review present SSSI (and SAC) boundaries.
- Action: CCW.**

### Advisory

- 1 Ensure all owners/occupiers are aware of the importance of this habitat and its associated species and provide advice for its protection.
- Action: CCW, SNPA, NT.**



**Ymchwil a Monitro i'r dyfodol**

- 1 Arolygu, mapio ac asesu'r holl ardaloedd migneint yn y Parc.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**
- 1 Darganfod maint y cynefin hwn yn y Parc, fel canran o'r adnodd trwy Brydain.  
**Gweithredu: CCGC.**
- 1 Arolygu/monitro'r adar magu.  
**Gweithredu: CGA.**
- 1 Hel at ei gilydd a llunio rhestr o'r holl ymchwil sy'n berthnasol i'r cynefin hwn a'i rywogaethau.  
**Gweithredu: CCGC, CGA.**
- 1 Llunio rhestr o'r holl rywogaethau Data Coch a chenedlaethol brin yn y cynefin hwn ym Mharc Eryri.  
**Gweithredu: CCGC, YG, APCE, arbenigwyr lleol.**
- 1 Monitro effaith dulliau rheoli'r presennol a rhai'r dyfodol.  
**Gweithredu: CCGC, APCE.**
- 1 Meithrin cysylltiad gyda Pharciau/arbenigwyr eraill ar gadwraeth migneint er mwyn cyfnewid profiad ac osgoi dyblygu gwaith.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, CGA, YG.**

**Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd**

- 1 Cynhyrchu byrddau gwybodaeth i roi gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r cynefin hwn.  
**Gweithredu: YG, APCE, CCGC, CGA, CBN, AASG.**
- 1 Sicrhau fod tirfeddianwyr a thenantiaid tir, cyrff statudol ac anstatudol yn gwybod am bwysigrwydd y cynefin a'i rywogaethau.  
**Gweithredu: YG, APCE, CCGC, AASG CGA.**
- 1 Sicrhau fod tirfeddianwyr a thenantiaid tir yn gwybod am y Côd Llosgi Rhostir a Glaswellt.  
**Gweithredu: YG, APCE, CCGC, CBN, CGA, AASG, NFU, UAC.**

**Gweithredu****Ffynonellau Ariannu a Chyngor Posib**

- 1 Statudol: APCE, CCGC, AASG, Tir Gofal, Tir Cymen.
- 1 Anstatudol: YG, CBN, grantiau Ewropeaidd.
- 1 Eraill: Grantiau Ewropeaidd, Loteri.

**Corff Cydlynu**

- 1 APCE.

**Manteision**

- 1 Cynnal amrywiaeth y cynefin a'i harddwch cysylltiedig.
- 1 Diogelu adar magu sy'n rhyngwladol bwysig.
- 1 Atal diflaniad rywogaethau prin fel Glöyn Mawr y Waun.
- 1 Gwarchod a gwella'r amrywiaeth fiolegol ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

**Future Research and Monitoring**

- 1 Survey, map and evaluate all areas of blanket bog within the Park.  
**Action: CCW, NT, SNPA.**
- 1 Ensure extent of SNP resource as a % of the total UK resource is known.  
**Action: CCW.**
- 1 Establish baseline breeding bird survey/monitoring.  
**Action: RSPB.**
- 1 Collate and establish inventory of all research relevant to this habitat and associated species.  
**Action: CCW, RSPB.**
- 1 Establish inventory of all nationally scarce and Red Data species within the habitat in SNP.  
**Action: CCW, NT, SNPA, local specialists.**
- 1 Establish monitoring to measure the effects of present and future management regimes.  
**Action: CCW, SNPA.**
- 1 Develop contacts with other National Parks/experts in peatland conservation in order to exchange experience and avoid duplication.  
**Action: SNPA, CCW, RSPB, NT.**

**Communication and Publicity**

- 1 Develop interpretation material to provide greater understanding and appreciation of this habitat.  
**Action: NT, SNPA, CCW, NWWT, RSPB, WOAD.**
- 1 Ensure owners/occupiers, statutory and non-statutory bodies are aware of the importance of this habitat and associated species.  
**Action: NT, SNPA, CCW, RSPB, WOAD.**
- 1 Ensure owner occupiers are aware of the Heath and Grass Burning Code.  
**Action: NT, SNPA, CCW, NWWT, RSPB, WOAD, NFU, FUW.**

**Implementation****Sources of Possible Funding and Advice**

- 1 Statutory: SNPA, CCW, WOAD, Tir Gofal, Tir Cymen.
- 1 Non-statutory: NT, NWW, EU funding.
- 1 Other: EU, Lottery.

**Co-ordinating Body**

- 1 SNPA.

**Benefits**

- 1 Maintain diversity of habitats and associated aesthetic qualities.
- 1 Safeguard internationally important breeding bird populations.
- 1 Prevent extinction of rare species such as the Large Heath butterfly.
- 1 Safeguard and enhance biological diversity within the SNP.





## Cyforgors

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Mawnog yw cyforgors sy'n cael ei bwydo'n llwyr gan ddŵr glaw yn hytrach na dŵr codi. Yn yr iseldir, e.e., ym mhen draw aberoedd, ar orlifdir afonydd ac mewn pantiau yn y tir lle mae dŵr yn cronni y deuir ar draws cyforgors fel arfer. Mae tir llawn dŵr, a'r diffyg aer o ganlyniad, yn atal pydredd ac yn hwyluso datblygiad y mawn sy'n crynhoi yn drwch o hyd at 10m. Mae mwy a mwy o fawn yna'n codi lefel y gors dros y tabl dŵr gan greu pant bas. Mae wyneb cyforgors fel arfer yn llawn dŵr, yn asidig ac yn brin o faetholion planhigion. Fe'i cysylltir gyda phlanhigion neilltuol sy'n brin o ran amrywiaeth ond sy'n cynnal mathau arbennig o blanhigion a chreaduriaid. Mae'r planhigion yn cynnwys glaswellt y ceirw (*Scirpus cespitosus*), plu'r gweunydd (*Eriophorum vaginatum*), grug y mêl (*Erica tetralix*), gwllithlys (*Drosera rotundifolia*) a llafn y bladur (*Narthecium ossifragum*), yn ogystal â sawl math o fwsog *Sphagnum*, fel arfer y *S. papillosum* a'r *S. magellanicum*. Mae'r creaduriaid yn cynnwys y troellwr neu frân y nos (*Caprimulgus europaeus*), cornicyll y mynydd neu'r cwtiad aur (*Pluvialis apricaria*), glöyn mawr y waun (*Coenonympha tullia*) a neidr.

Gall cyforgors fod yn un gyflawn lle mae'r domen yn hollol gyfan, neu'n ddarniog o ganlyniad i dorri mawn yn y gorfennol er enghraifft. Mae'n bwysig diogelu corsydd cyfain neu rai sy'n bosib eu hadfer, nid lleiaf oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer darganfyddiadau paleoecolegol, paleoamgylcheddol ac archeolegol.

Yn Eryri, mae SDDGA Cors Arthog yn enghraifft o Gyforgors gyfan. Mae'n gyforiog o blanhigion, yn eu plith rhosmari gwyllt (*Andromeda polifolia*), hesg gylfinfain (*Rhynchospora fusca*), brwyn clymog (*Juncus subnodulosus*), llafnllys mawr (*Ranunculus lingua*) a'r eurinllys tonnog (*Hypericum undulatum*). Mae'r myrdd creaduriaid di-asgwrn cefn yn cynnwys briteg y gors (*Eurodryas aurinia*).

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys ond mae'n un o'r cynefinoedd mwyaf prin a mwyaf dan fygythiad yn Ewrop.
- 1 Cenedlaethol: 6000 hectar o gyforgorsydd cyfain yn yr iseldir ar wasgar ar draws tua 1045 o safleoedd bychain. Mae gan Gymru 6% (360 hectar) o'r adnodd cenedlaethol, ar tua 20 safle.
- 1 Eryri: Anhysbys. O leiaf 2 safle yn cynnwys Arthog, a Chrawcwellt yn Nhrawsfynydd.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: UCHEL. Cynefin allweddol wedi ei restru dan y Cyfarwyddyd Cynefin Ewropeaidd (1992).
- 1 Cenedlaethol: UCHEL. Gwelwyd lleihad o 94% yn ei ehangder ers dechrau'r 19ain ganrif.
- 1 Eryri: UCHEL. Cynefin lleol gwerthfawr a neilltuol sy'n gysylltiedig ag amryw o adar anghyffredin neu brin, gan gynnwys cornicyll y mynydd, y giach (*Gallinago gallinago*) a'r gylfinir (*Numenius arquata*).

## Raised Bogs

### Current status

#### Description

Raised Bogs are peatlands that are fed solely by rainfall rather than by surface ground water. They develop primarily in lowland areas such as the head of estuaries, along river floodplains and in topographic depressions where drainage is impeded. Water logging and resulting anaerobic conditions retard decomposition, facilitating peat accumulation up to 10m thickness. Continued addition of peat elevates the bog surface above the regional water table, forming a characteristic shallow dome. The surface of raised bogs is typically waterlogged, acidic and deficient in plant nutrients. Raised bogs are associated with distinctive plant communities that are low in overall diversity but support specialised plant and animal species. Characteristic plants include deergrass (*Scirpus cespitosus*), hare's-tail cottongrass (*Eriophorum vaginatum*), cross-leaved heath (*Erica tetralix*), round-leaved sundew (*Drosera rotundifolia*) and bog asphodel (*Narthecium ossifragum*), as well as numerous *Sphagnum* mosses, typically *S. papillosum* and *S. magellanicum*. Animals include nightjars (*Caprimulgus europaeus*), golden plover (*Pluvialis apricaria*), large heath butterfly (*Coenonympha tullia*) and dragonflies.

Raised bogs may be 'pristine', where the dome is intact, or damaged to some degree by peat extraction or other activities. Intact or 'restorable' bogs are important habitats for nature conservation. They are also excellent preserves for palaeoecological, palaeoenvironmental and archaeological records.

In Snowdonia, Arthog Bog SSSI is an example of an intact Raised Bog. It is floristically rich and supports bog rosemary (*Andromeda polifolia*), brown-beak sedge (*Rhynchospora fusca*), blunt-flowered rush (*Juncus subnodulosus*), greater spearwort (*Ranunculus lingua*) and wavy St. John's wort (*Hypericum undulatum*). Significant invertebrates include the marsh fritillary butterfly (*Eurodryas aurinia*).

#### Extent

- 1 International: Unknown but is one of Europe's rarest and most threatened habitats.
- 1 National: 6000 hectares of intact lowland raised bog scattered across about 1045 small sites. Wales holds 6% (360 hectares) of the national resource across about 20 sites.
- 1 Snowdonia: Unknown. At least 2 sites including, Arthog SSSI, Crawcwellt, Trawsfynydd.

#### Priority

- 1 International: HIGH. Key habitat listed under the Habitats Directive.
- 1 National: HIGH. There has been a 94% decrease in extent since the start of the 19th century.
- 1 Snowdonia: HIGH. Distinctive and valued local habitat which is associated with a number of nationally uncommon or endangered species, including golden plover, snipe (*Gallinago gallinago*) and curlew (*Numenius arquata*).





## Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Rheolaeth annigonol fel llosgi, lefelau pori anaddas a diffeithwch.
- 1 Lefelau dŵr is neu amrywiol oherwydd draenio ac adennill tir a thorri mawn.
- 1 Coedwigo yn y gorffennol a'r presennol.
- 1 Llygredd aer.
- 1 Newid hin.
- 1 Llygredd gan gynnwys ewtroffeddio dyfroedd o gwmpas cyforgorsydd, chwynladdwyr a thipio.
- 1 Gweithgareddau hamdden lleol yn achosi erydiad, e.e., beicio mynydd.

## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithiol

- 1 Mae Cors Arthog yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Mae CCGC yn gweithredu rhaglen barhaus o reoli cadwraeth yng Nghors Arthog.
- 1 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn paratoi cynlluniau i reoli lefel y dŵr ar gyfer cyforgorsydd, a fydd yn chwarae rôl bwysig gyda gwarchod y cynefin hwn.

### Amcanion

- 1 Sicrhau fod ehangder cyforgorsydd yn Eryri yn cael ei fapio erbyn 2005.
- 1 Cynnal a gwella ehangder presennol cyforgorsydd a'u cyfoeth o fflora a ffawna, fel nod parhaus.
- 1 Sicrhau fod y safleoedd yn cael eu monitro erbyn y flwyddyn 2005.
- 1 Cyfyngu ar unrhyw newidiadau ar y safleoedd hyn erbyn y flwyddyn 2005.
- 1 Nodi'r safleoedd hynny sydd â photensial i'w hadfer erbyn y flwyddyn 2005.
- 1 Gwella o leiaf 10% o'r cyforgorsydd yn Eryri erbyn y flwyddyn 2010.
- 1 Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd y cynefin hwn, fel nod parhaus.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Sicrhau fod Tir Gofal yn cynnwys mesurau i ddiogelu a gwella ansawdd cynefin y gyforgors.

**Gweithredu: AASG, CCGC, APCE.**

- 1 Diogelu cyforgorsydd mewn cynlluniau datblygu perthnasol.

**Gweithredu: APCE.**

- 1 Diogelu cyforgorsydd rhag coedwigo.

**Gweithredu: CC, MC.**

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Paratoi cynlluniau rheoli ar gyfer y safleoedd statudol presennol, a rhai newydd, a sicrhau eu bod yn adlewyrchu pwysigrwydd y cynefin hwn.

**Gweithredu: CCGC, APCE.**

- 1 Annog tirlfeddianwyr sy'n berchen ar safleoedd statudol ac anstatudol i fabwysiadu cynlluniau rheoli.

**Gweithredu: APCE, CCGC.**

## Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Inadequate management such as burning, inappropriate grazing regimes and dereliction.
- 1 Lowering or fluctuating water levels due to drainage, agricultural reclamation and peat extraction.
- 1 Past and present afforestation.
- 1 Atmospheric pollution.
- 1 Climate change.
- 1 Pollution including eutrophication of surrounding waters, pesticides and tipping.
- 1 Localised recreational activities causing erosion e.g. mountain biking.

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 Arthog bog is a notified SSSI.

### Management, Research and Guidance

- 1 CCW maintain an active programme of conservation management on Arthog bog.
- 1 EA are preparing water level management plans for raised bog areas which will play an important role in the conservation of the habitat.

## Objectives

- 1 Ensure the extent of raised bogs within Snowdonia is mapped by the year 2005.
- 1 Maintain and enhance the current extent of raised bogs and their floral and faunal communities as an ongoing objective.
- 1 Establish base line monitoring by the year 2005.
- 1 Set limits of acceptable change for each site by the year 2005.
- 1 Identify potential areas for restoration by the year 2005.
- 1 Improve at least 10% of Raised Bog in Snowdonia by year 2010.
- 1 Raise awareness of the importance of this habitat as an ongoing objective.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Ensure Tir Gofal includes prescriptions that safeguard and enhance the quality of raised bog.  
**Action: WOAD, CCW, SNPA.**
- 1 Protect raised bogs in relevant development plans.  
**Action: SNPA.**
- 1 Protect raised bogs from afforestation.  
**Action: FC, FE.**

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Prepare management plans for existing and new statutory sites and ensure they reflect the importance of this habitat.  
**Action: CCW, SNPA.**
- 1 Promote uptake of management agreements with owner occupiers of statutory and non-statutory sites.  
**Action: SNPA, CCW.**





- 1 *Diwygio terfynau'r Safleoedd o DdGA a'r Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig i gynnwys safleoedd cyforgors newydd neu rai wedi eu dosbarthu'n anghywir.*  
**Gweithredu: CCGC.**
- 1 *Parhau i weithio ar y cynlluniau i reoli lefelau d r.*  
**Gweithredu: AyrA.**

**Cynghori**

- 1 *Rhoi cyngor i dirfeddianwyr ar sut i reoli cyforgorsydd ar eu tir.*  
**Gweithredu: CCGC, APCE, AASG, Tir Gofal.**
- 1 *Sicrhau fod cyrff statudol ac anstatudol yn ymwybodol o bwysigrwydd y cynefin hwn.*  
**Gweithredu: CCGC, APCE.**

**Ymchwil a Monitro i'r Dyfodol**

- 1 *Mapio ehangder y cyforgorsydd yn Eryri.*  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG, CBN.**
- 1 *Llunio rhestr o'r holl rywogaethau data coch a chenedlaethol brin sydd yn y cynefin hwn yn Eryri.*  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG, CBN, CGA, COP, CFP, COC, grwpiau gloynnod byw/ystlumod/moch daear Gwynedd, NWIG.**
- 1 *Sefydlu amryw o safleoedd monitro allweddol ac asesu effeithiau pori, llosgi ac arferion rheoli eraill arnynt.*  
**Gweithredu: APCE, CCGC, Tir Gofal.**
- 1 *Hel yr ymchwil presennol ar gyforgorsydd at ei gilydd.*  
**Gweithredu: CCGC, YG, APCE.**
- 1 *Annog ymchwil ar lefelau d r is neu amrywiol, newid hin, llygredd a rheoli erydiad.*  
**Gweithredu: APCE, CCGC, ITE, AyrA, YG, BUFT.**

**Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd**

- 1 *Codi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o gyforgorsydd Eryri.*  
**Gweithredu: APCE, CCGC, AyrA, YG, CBN, CGA.**
- 1 *Ar safleoedd priodol, annog defnydd addysgol a mynediad cyhoeddus gyda byrddau gwybodaeth.*  
**Gweithredu: APCE, YG, CCGC, CBN, CGA, AASG, NFU, UAC.**

**Gweithrediad****Ffynonellau Ariannu a Chyngor**

- 1 *Statudol: APCE, CCGC, AASG, FRCA, CC, MC, AyrA.*
- 1 *Anstatudol: YG, CBN, CGA, BUFT, ITE, BTO, BSBI, COS, grwpiau gloynnod byw/ystlumod/moch daear Gwynedd, NWIG.*
- 1 *Eraill: Ymgynghorwyr AyrA, Grantiau Ewropeaidd, Loteri.*

**Corff Cydlynu**

- 1 APCE.

**Manteision**

- 1 *Cynnal a gwella fflora a ffawna neilltuol.*
- 1 *Atal diflaniad rhywogaethau prin ac anghyffredin, e.e. y gylfinir a britheg y gors.*
- 1 *Gwella adnoddau gwybodaeth ac addysgol.*

- 1 Amend existing SSSI and SAC boundaries to include new or wrongly classified raised bog sites.  
**Action: CCW.**
- 1 Continue work on water level management plans.  
**Action: EA.**

**Advisory**

- 1 Promote management advice for owner occupiers of land with raised bog.  
**Action: CCW, SNPA, WOAD, Tir Gofal.**
- 1 Ensure statutory and non-statutory bodies are aware of the importance of this habitat.  
**Action: CCW, SNPA.**

**Future Research and Monitoring**

- 1 Map the extent of raised bog in Snowdonia.  
**Action: CCW, SNPA, NT, NWWT.**
- 1 Establish an inventory of all nationally scarce and red data book species within this habitat in Snowdonia.  
**Action: CCW, SNPA, NT, NWWT, RSPB, BTO, BSBI, COS, Gwynedd Bat/Badger/Butterfly Groups, NWIG.**
- 1 Establish several key monitoring sites and assess the effects of grazing, burning and other management practices.  
**Action: SNPA, CCW, Tir Gofal.**
- 1 Collate existing research on raised bogs.  
**Action: CCW, NT, SNPA.**
- 1 Encourage research on lowering or fluctuating water levels, climate change, pollution and erosion control.  
**Action: SNPA, CCW, ITE, EA, NT, BUFT.**

**Communication and Publicity**

- 1 Promote public awareness and appreciation of Snowdonia's bogs.  
**Action: SNPA, CCW, EA, NT, NWWT, RSPB.**
- 1 At appropriate sites, encourage educational use and public access with proper interpretation.  
**Action: SNPA, NT, CCW, NWWT, RSPB, WOAD, NFU, FUW.**

**Implementation****Sources of Possible Funding and Advice**

- 1 Statutory: SNPA, CCW, WOAD, FRCA, FA, FE, EA.
- 1 Non-statutory: NT, NWWT, RSPB, BUFT, ITE, BTO, BSBI, COS, Gwynedd Bat/Badger/Butterfly Groups, NWIG.
- 1 Other: EA consultants, European Funding, Lottery.

**Co-ordinating Body**

- 1 SNPA.

**Benefits**

- 1 Maintenance and enhancement of distinctive flora and fauna.
- 1 Safeguard survival of rare and uncommon species e.g. curlew and marsh fritillary butterfly.
- 1 Increased interpretation and educational resource.









## Llynnoedd Mesotroffig (& Oligotroffig)

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Pur anaml y gwelir dyfroedd mesotroffig ym Mhrydain, fel arfer ar gyrion ucheldir y gogledd neu'r gorllewin. Fe'u nodweddir gan ystod gyfyng o faetholion (rhywle rhwng llynnoedd oligotroffig ac ewtroffig), nitrogen anorganig a ffosfforws yn bennaf. Mae gan llynnoedd mesotroffig fwy o wahanol facroffytâu na'r un math arall o lyn a, mewn cymhariaeth, mwy o amrywiaeth planhigion dŵr prin. Yn Llyn Tegid er enghraifft, mae'r llyriad dŵr [nofiadwy] (*Luronium natans*) a'r gwybybyr chwefrigerog, neu ddail llosg tân (*Elatine hexandra*) yn gyffredin, y ddau yn blanhigion gyda blaenoriaeth cadwraeth Prydeinig. Mae yma hefyd ddigon o bryfed fel gwas y neidr, chwilen y dŵr, y pry cerrig a'r gleren fai, a'r pysgod yn aml yn gymysgedd o eogiaid a physgod breision. Yn Llyn Tegid y ceir yr unig boblogaeth Gymreig o'r 'sgadan dŵr croyw, y gwyniad (*Coregonus lavaretus*), sy'n dra gwahanol i fathau eraill o 'sgadan yn Lloegr a'r Alban. Mae yma gofnodion hanesyddol o'r falwen ludiog (*Myxas glutinosa*) hefyd, ac yn sgîl arolwg diweddar cafwyd ei bod yn parhau'n eithaf niferus.

Mae dyfroedd oligotroffig yn brin o faetholion fel arfer ac yn nodweddiadol o ogledd a gorllewin Prydain, er nid yn anghyffredin mewn rhai ardaloedd rhostir yn y de hefyd. Mae eu dŵr yn glir oherwydd prinder plancton, ac nid yw planhigion dŵr a chreaduriaid di-asgwrn cefn fel arfer yn ffynnu yn y dyfroedd hyn. Er hynny, mae dyfroedd oligotroffig yn bwysig i greaduriaid di-asgwrn cefn fel y gleren fai a'r pry pric, ac i bysgod fel y brithyll (*Salmo trutta*) a'r torgoch neu'r brithyll melyn (*Salvelinus alpinus*). Mae gan Llyn Cwellyn y gwybybyr chwefrigerog a'r llyriad dŵr a math arall Cymreig o'r torgoch. Mae'r gragen ddeuddarn *Pisidium conventus* yn rhywogaeth o bryder cadwraethol ac i'w chael yn llynnoedd uchel yr Wyddfa. Mae llynnoedd eraill yn Eryri yn cynnal y torgoch a macroffytâu dŵr amrywiol.

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: Anhysbys.
- 1 Eryri: Tua 3100 hectar, 1.4% o arwynebedd Eryri.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: UCHEL. Cynefin gyda blaenoriaeth cadwraeth.
- 1 Eryri: Cynefin lleol gyda blaenoriaeth UCHEL - mae gan Eryri enghreifftiau da o llynnoedd oligotroffig a mesotroffig. Mae Llyn Cwellyn yn Ardal o Gadwraeth Arbennig. Mae Llyn Tegid yn lyn pwysig ac yn cynnal ystod o rywogaethau cenedlaethol gan gynnwys y llyriad dŵr nofiadwy, yr eog (*Salmo salar*), y dyfrgi (*Lutra lutra*) a'r gwyniad.

## Mesotrophic (& Oligotrophic) Lakes

### Current status

#### Description

Mesotrophic waters are relatively infrequent in the UK and are largely confined to the margins of upland areas in the north and west. They are characterised by having a narrow range of nutrients (intermediate between oligotrophic and eutrophic lakes), the main indicative ones being inorganic nitrogen and total phosphorus. Mesotrophic lakes have the highest macrophyte diversity and Biodiversity of any lake type. Relative to other lake types they contain a higher proportion of nationally scarce and rare aquatic plants. In Snowdonia Llyn Tegid contains floating water-plantain (*Luronium natans*) and six-stemmed waterwort (*Elatine hexandra*), both of which are species of UK conservation priority. Macroinvertebrates are well represented, particularly dragonflies, water beetles, stoneflies and mayflies. Fish communities are often composed of a mixture of salmonid and coarse species. Llyn Tegid supports the only Welsh population of the freshwater herring, the gwyniad (*Coregonus lavaretus*) which is genetically distinct from the other populations in England and Scotland. There are historical records of the glutinous snail (*Myxas glutinosa*) from Llyn Tegid, a species which has recently been found to be still abundant.

Oligotrophic waters are nutrient poor and are typical of northern and western Britain although they also occur in some southern heathland sites. Their waters are clear due to low biomass of plankton and have low productivity of aquatic plants and invertebrates. They are important for invertebrate groups such as mayflies and caddisflies and fish, including brown trout (*Salmo trutta*) and arctic char (*Salvelinus alpinus*). Llyn Cwellyn contains six-stemmed waterwort and floating water-plantain. A genetically distinct form of the Welsh race of arctic char is also found. The bivalve *Pisidium conventus*, a species of UK conservation concern, is found in lakes in the Yr Wyddfa SSSI. Other lakes in Snowdonia support populations of the glacial relic fish the arctic char and diverse aquatic macrophytes.

#### Extent

- 1 International: Unknown.
- 1 National: Unknown.
- 1 Snowdonia: Approximately 3100 hectares, 1.4% of Snowdonia's total area.

#### Priority

- 1 International: Unknown.
- 1 National: HIGH. UK habitat of conservation priority.
- 1 Snowdonia: HIGH. Priority local habitat - Snowdonia contains good examples of both oligotrophic and mesotrophic lakes. Llyn Cwellyn is a cSAC. Llyn Tegid is of particular note, supporting a range of species of national conservation priority including, floating water-plantain, the salmon (*Salmo salar*), the otter (*Lutra lutra*) and the gwyniad.





## Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Ewtroffeiddio a'r algae gwyrddlas gwenwynig sy'n gysylltiedig â hyn.
- 1 Glaw asid a maetholion o'r pridd a'r awyr yn gollwng i'r llyn.
- 1 Effaith gweithgareddau hamdden e.e., cychod yn gwneud difrod i'r tyfiant ac yn cynhyrfu'r dyfroedd.
- 1 Gall newid y defnydd tir mewn ardal gyda llynnoedd amharu ar y tabl dŵr a'r cydbwysedd llygredd a dirywio neu ddifa cynefinoedd cyfagos gwerthfawr
- 1 Defnydd o bla neu chwynladdwr gan gynnwys dipiau defaid.
- 1 Cynlluniau adnoddau dŵr
- 1 Cynlluniau trydan dŵr
- 1 Newid hin.

## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithiol

- 1 Mae digonedd o lynnoedd mesotroffig ac oligotroffig o fewn safleoedd dynodedig yn Eryri, yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) a Ramsar Llyn Tegid; SDdGA Y Carneddau, SDdGA/Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Yr Wyddfa, SDdGA Y Glyderau a Chwm Idwal /GNG Cwm Idwal; SDdGA Y Migneint; SDdGA Llyn Llaga a Llyn yr Adar; SDdGA Llyn Cwellyn, Llynnoedd Mymbyr, a Chwm Dwythwch. Mae Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig gyda llynnoedd mesotroffig ac oligotroffig yn cynnwys rhai Llyn Cwellyn ac Eryri.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 Mae Prosiect Llyn Tegid yn edrych i mewn i ecoleg y llyn, gan gynnwys ei statws troffig, y maetholion sy'n mynd mewn i'r llyn, yr algae (diatomau) sydd yn y llyn heddiw ac yn hanesyddol, a newidiadau yn y defnydd tir o gwmpas y llyn.
- 1 Mae cynllun rheoli ar gyfer y llyn yn cael ei baratoi gan y CCGC a APCE.
- 1 Mae cynllun 'petai angen' yn cael ei baratoi ar gyfer y gwyniad yn y llyn gan AyrA, CCGC a APCE.
- 1 Mae ymchwil ar y pysgod yn Llyn Tegid yn cael ei gyflawni gan Brifysgol Lerpwl.
- 1 Mae'r CCGC wrthi'n dosbarthu ac asesu'r holl lynnoedd yng Nghymru (Mae Cyfnod 1, 1994, yn cynnwys Llyn Cwellyn a Llyn Idwal).
- 1 Ymchwil arall yn cynnwys arolwg o'r llyriad dŵr ac astudiaeth i effaith calchu yn Gamallt.

### Amcanion

- 1 Cynnal amrywiaeth y fflora a'r ffawna mewn llynnoedd mesotroffig ac oligotroffig.
- 1 Gweithredu mesurau effeithiol i ddatrys y broblem gormod o faetholion mewn llynnoedd.
- 1 Cyfyngu ar unrhyw newidiadau pan fydd statws troffig y llynnoedd yn wybyddus inni.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Cadw mewn cysylltiad â'r gweithgor cenedlaethol. Gweithredu: CCGC, AyrA.

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

Gwthio am drefn hysbysu ar gyfer safleoedd heb eu dynodi.  
Gweithredu: CCGC.

## Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Eutrophication and associated toxic blue green algal blooms.
- 1 Atmospheric acid and nutrient deposition.
- 1 Recreational impacts such as boats damaging strands of vegetation and increasing turbidity.
- 1 Land use changes in lake catchment areas can alter the water table, change the pollution load and degrade or remove valuable adjacent habitat.
- 1 Pesticide usage including sheep dip.
- 1 Water resources schemes.
- 1 Hydro Electric Power schemes.
- 1 Climate change.

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 Mesotrophic and oligotrophic lakes are well represented within designated sites in Snowdonia. These include: Llyn Tegid SSSI and Ramsar site; the Carneddau SSSI, Yr Wyddfa SSSI/NNR, Glyderau and Cwm Idwal SSSI/Cwm Idwal NNR; The Migneint SSSI; Llyn Llaga and Llyn Yr Adar SSSI; Llyn Cwellyn, Llynau Mymbyr and Cwm Dwythwch SSSIs. cSACs containing mesotrophic and oligotrophic lakes include Llyn Cwellyn and Eryri.

### Management, Research and Guidance

- 1 The Llyn Tegid Project is investigating the ecology of the lake including its trophic status, nutrient inputs and nutrient budget, existing and historic algal (diatoms) populations and changes in landuse in the lake catchment area.
- 1 A management plan for the lake is being prepared by CCW and SNPA.
- 1 A contingency plan for the lake's gwyniad population is being prepared by the EA, CCW and SNPA.
- 1 Research on the Llyn Tegid fish populations has been carried out by Liverpool University.
- 1 An integrated classification and assessment of lakes in Wales is being carried out by CCW (Phase 1, 1994 includes Llyn Cwellyn and Llyn Idwal).
- 1 Other research includes a floating water plantain survey and the Gamallt liming study.

### Objectives

- 1 Maintain diversity of flora and fauna in mesotrophic and oligotrophic lakes.
- 1 Identify and implement effective remedial action to address nutrient enrichment.
- 1 Set limits of acceptable change when the trophic status is determined.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 Liaise with national working group.  
Action: CCW, EA.

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 Encourage notification of non-designated sites.  
Action: CCW.





### Cynghori

- 1 Lleihau'r maetholion sy'n cael eu gollwng i lynnoedd trwy dynnu ffosffadau o'r carthion mewn Gwaith Trin Carthion; addysgu'r ardal yngl, n â manteision powdr golchi 'gwyrd'; annog defnyddio stribedi byffer, llai o bori ac erydiad, trin silwair a phiswail yn fwy gofalus ayb.

**Gweithredu: AyrA, Cyngor Gwynedd.**

- 1 Cytuno i gyfyngu gweithgareddau hamdden i 'barthau' dan reolaeth, er mwyn lleihau'r effaith ar lynnoedd.

**Gweithredu: AyrA.**

- 1 Dylanwadu ar ddefnydd tir y dalgylch cyfagos i atal newidiadau sy'n cael effaith andwyol ar lynnoedd, fel coedwigo, gorburi ayb.

**Gweithredu: CCGC.**

- 1 Hyrwyddo'r Còd Ymarfer Amaethu Da er mwyn diogelu dyfroedd o fewn dalgylch cyfan.

**Gweithredu: AyrA, AASG, CCGC.**

- 1 Hyrwyddo canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd a rhai diwydiannol yngl, n â gwared dip defaid yn ddiogel.

**Gweithredu: AyrA.**

### Ymchwil a Monitro i'r dyfodol

- 1 Hel yr holl ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol at ei gilydd.

**Gweithredu: CCGC.**

- 1 Darganfod ehangder a statws y cyrff dŵr yn Eryri sy'n llai na 10 hectar mewn maint.

**Gweithredu: APCE.**

### Cyfathrebu a Chyhoeddu'rwydd

- 1 Hybu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o lynnoedd Eryri.

**Gweithredu: APCE.**

- 1 Hybu defnyddio powdr golchi ayb 'gwyrd' a dosbarthu gwybodaeth ar ewtroffeddio o fewn dalgylchoedd sensitif.

**Gweithredu: AyrA, CCGC, APCE.**

### Gweithrediad

#### Ffynonellau Ariannu a Chyngor

- 1 Statudol: APCE, CCGC, AASG, AyrA, IFE, ITE, FBA.
- 1 Anstatudol: YG, CBN, defnyddwyr hamdden.
- 1 Eraill: Grantiau Ewropeaidd, Loteri.

#### Corff Cydlynu

- 1 APCE.

### Manteision

- 1 Llai o ewtroffeddio a'r algae sy'n gysylltiedig â hyn.
- 1 Diogelu Bioamrywiaeth, yn enwedig fflora a ffawna unigryw.
- 1 Cynyddu a chadw gwerth mwynderol a phrydferthwch llynnoedd, yn enwedig ar gyfer adloniant a'r manteision economaidd cysylltiedig i gymunedau lleol.
- 1 Cynnal a gwella ansawdd y dŵr er lles bywyd gwyllt, mwyniant a defnyddwyr amaethyddol a domestig.

### Advisory

- 1 Reduce existing human-induced nutrient inputs to lakes where possible by: phosphate stripping at Sewage Treatment Works; education of catchment population in the benefits of phosphate free detergents; beneficial changes in land use practice such as buffer strips, reduced grazing & erosion, better silage & slurry handling etc.  
**Action: EA, GC.**
- 1 Agree appropriate managed zoning of recreational activity to reduce impact to lakes.  
**Action: EA.**
- 1 Influence land use in surrounding catchment to prevent changes that negatively impact lakes, such as inappropriate afforestation, overgrazing etc.  
**Action: CCW.**
- 1 Promote adherence to the Code of Good Agricultural Practice for the protection of water in lake catchment areas.  
**Action: EA, WOAD, CCW.**
- 1 Promote adherence to Environment Agency and industry guidelines on safe sheep dip disposal.  
**Action: EA.**

### Future Research and Monitoring

- 1 Collate existing national and international research.  
**Action: CCW.**
- 1 Determine the extent and status of water bodies in Snowdonia below 10 hectares in size.  
**Action: SNPA.**

### Communication and Publicity

- 1 Promote public awareness and appreciation of Snowdonia's lakes.  
**Action: SNPA.**
- 1 Promote the use of phosphate-free detergents and knowledge of eutrophication within sensitive catchments.  
**Action: EA, CCW, SNPA.**

### Implementation

#### Sources of Possible Funding and Advice

- 1 Statutory: SNPA, CCW, WOAD, EA, IFE, ITE, FBA.
- 1 Non-statutory: NT, NWWT, recreation users.
- 1 Other: European funding, lottery.

#### Co-ordinating Body

- 1 SNPA.

### Benefits

- 1 Reduced eutrophication and associated algal blooms.
- 1 Safeguard Biodiversity, particularly populations of distinct fauna and flora.
- 1 Increase and maintain amenity of lakes, particularly for recreational tourism and associated high economic benefit to local communities.
- 1 Maintain and enhance water quality for the benefit of wildlife, amenity, agricultural and domestic users.

**Awdur/Author:** Dave Thorpe, AyrA/EA.







## Morfa Bori Arfordirol & Llawr Gwlad

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Diffinnir morfa bori fel porfa neu ddôl sy'n llawn dŵr o bryd i'w gilydd, gyda ffosydd yn ei chroesi sydd wastad yn llawn o ddŵr croyw neu hallt. Mae'r ffosydd, yn enwedig, yn llawn o blanhigion a chreaduriaid di-asgwrn cefn. Mae'r tir i gyd bron yn cael ei bori, a rhai dolydd yn cael eu hel yn wair neu'n silwair. Weithiau ceir merddwr mewn tyllau neu bantiau yn y tir, sy'n llawn dŵr ar adegau neilltuol o'r flwyddyn, gyda rhai planhigion cors ond heb lawer o rai ffendir tal fel brwyn, er eu bod yn aml yn ffinio hefo ffendir brwyn neu gors.

Mae morfeydd pori yn gynefin arbennig o bwysig i sawl aderyn dŵr fel y giach (*Gallinago gallinago*), y gornchwiglen (*Vanellus vanellus*) a'r gylfinir (*Numenius arquata*). Mae adar ymfudol sy'n rhyngwladol bwysig hefyd yn hoff o'r cynefin hwn, yn cynnwys elyrch Bewick (*Cygnus bewickii*) ac elyrch y gogledd (*Cygnus cygnus*).

#### Ehangder

- † Rhyngwladol: Anhysbys.
- † Cenedlaethol: Ni wyddys yr union ehangder ond mae'n bosib y gall fod yn 300,000 hectar i gyd. Fodd bynnag, dim ond tua 10,000 o'r glaswelltir hwn sy'n lled-naturiol gydag amrywiaeth o blanhigion brodorol.
- † Eryri: Mae amryw o aberoedd pwysig yn cynnwys morfeydd pori llawr gwlad ac arfordirol, e.e. Dyfi, Dysynni, Mawddach, Traeth Bach a Glaslyn.

#### Blaenoriaeth

- † Rhyngwladol: Anhysbys.
- † Cenedlaethol: UCHEL. Cynefin o flaenoriaeth yng Nghynllun Bioamrywiaeth y DG.
- † Eryri: UCHEL. Mae'n gynefin i amryw o rywogaethau gyda blaenoriaeth Brydeinig.

### Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- † Cloddiau llanw wedi eu hadeiladu'n 'ecolegol ansensitif' yn y gorfennol.
- † Amaethu dwys.
- † Llai o reolaeth draddodiadol ar y tir.
- † Mwy o faetholion yn y ddaear gan achosi ewtroffeddio.
- † Diwydianeiddio a threfoli.
- † Tynnu dŵr o'r ddaear.
- † Llygru dŵr codi neu ddŵr wyneb.
- † Codi mwynau o'r ddaear.
- † Lefel y môr yn codi.

### Gweithredu ar y gweill yn Eryri

#### Statws cyfreithiol

- † Mae morfeydd pori llawr gwlad ac arfordirol yn nodwedd o sawl Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn cynnwys Dyfi/Cors Fochno, Morfa Harlech a Morfa Dyffryn.
- † Mae Deddf Adnoddau Dŵr a'r Ddeddf Draenio Tir yn rhoi dyletswydd statudol ar gwmnïau dŵr, byrddau draenio ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i wneud eu gorau ar gyfer cadwraeth.
- † Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd gyfrifoldeb statudol i reoli llygredd.

## Coastal & Floodplain Grazing Marsh

### Current status

#### Description

Grazing marsh is defined as periodically inundated pasture or meadow with ditches that maintain the water levels which contain standing brackish or fresh water. The ditches are especially rich in plants and invertebrates. Almost all areas are grazed and some are cut for hay or silage. Sites may contain seasonal water-filled hollows and permanent ponds with emergent swamp communities but not extensive areas of tall fen species like reeds, although they may abut with fen and reed swamp communities.

Grazing marshes are particularly important for the number of breeding waders such as snipe (*Gallinago gallinago*), lapwing (*Vanellus vanellus*) and curlew (*Numenius arquata*) that they support. Internationally important populations of wintering wildfowl also occur, including Bewick swans (*Cygnus bewickii*) and whooper swans (*Cygnus cygnus*).

#### Extent

- † International: Unknown.
- † National: The exact extent is not known but it is possible that there may be a total of 300,000 hectares. However, only an estimated 10,000 hectares of this grassland is semi-natural supporting a high diversity of native plant species.
- † Snowdonia: Several important estuaries contain areas of coastal and floodplain grazing marsh, namely Dyfi, Dysynni, Mawddach, Traeth Bach and Glaslyn estuaries.

#### Priority

- † International: Unknown.
- † National: HIGH. Priority habitat in UK BAP.
- † Snowdonia: HIGH. Habitats support a number of species of UK conservation priority.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- † Ecologically insensitive flood defence works built in the past.
- † Agricultural intensification.
- † Decline in traditional management.
- † Increased nutrient loading and eutrophication.
- † Industrialisation and urbanisation.
- † Ground water abstraction.
- † Pollution of ground water or surface water.
- † Aggregates extraction.
- † Sea level rise.

### Current action in Snowdonia

#### Legal Status

- † Coastal and floodplain grazing marshes are represented in numerous SSSIs including Dyfi/Cors Fochno, Morfa Harlech and Morfa Dyffryn.
- † The Water Resources Act and the Land Drainage Act set out statutory duty of Water Companies, Internal Drainage Boards and Local Authorities in England and Wales to further conservation.
- † The EA have statutory responsibilities for pollution control.





### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- Arweiniad y Cyngor Cefn Gwlad ar sut i reoli ffosydd draenio er budd bywyd gwylt,
- Cyhoeddir cynlluniau rheoli lefelau dŵr gan Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig, yn cynnwys nodiadau ar sut wneir penderfyniadau ar waith cloddiau llif a llanw, ar lawr gwlad ac ar yr arfordir.
- Mae cynlluniau rheoli lefelau dŵr yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob Safle o DdGA gyda morfa bori a lle mae corff draenio yn gyfrifol am adeiladwaith arbennig.

### Amcanion

- Cynnal ehangder ac ansawdd ein morfeydd pori.
- Adfywio morfeydd sydd wedi mynd yn rhy sych neu dan reolaeth ddwys.
- Creu morfa bori o dir âr mewn ardaloedd arbennig.

### Gweithredu ar gyfer y dyfodol

#### Polisi a Deddfwriaeth

- Meithrin cysylltiad gyda'r gweithgor cenedlaethol.  
**Gweithredu: CCGC.**
- Parhau i sicrhau fod cloddiau llanw a llif yn cael eu hadeiladu'n ecolegol sensitif.  
**Gweithredu: CCGC, AyrA.**

#### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- Nodi'r safleoedd pwysicaf yn Eryri.  
**Gweithredu: CCGC.**
- Cynnal a gwella statws ac ehangu'r cynefin hwn.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, CBN, Tir Gofal.**
- Atal/lleihau bygythiadau.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, AyrA.**
- Cynorthwyo gyda a hyrwyddo cynlluniau rheoli lefelau dŵr yn Eryri.  
**Gweithredu: AyrA.**

#### Cynghori

- Dylanwadu ar ddefnydd tir i warchod a gwella'r cynefin presennol.  
**Gweithredu: AASG, APCE, CCGC, Tir Gofal.**

#### Ymchwil a Monitro i'r Dyfodol

- Cefnogi prosiectau sy'n mesur maint a dosbarthiad gweddill y cynefin hwn.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, CBN.**

#### Cyfathrebu a Chyhoedduswydd

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, CBN.**
- Ar safleoedd priodol, annog defnydd addysgol a mynediad cyhoeddus trwy fyrdau gwybodaeth.  
**Gweithredu: CBN.**

### Gweithrediad

#### Ffynonellau Ariannu a Chyngor

- Statudol: APCE, CCGC, AyrA, Tir Gofal.
- Anstatudol: YG, CBN, CGA.
- Eraill: Ewropeaidd, Loteri Dreftadaeth neu loteri arall.

#### Corff Cydlynu

- APCE.

### Manteision

- Diogelu Bioamrywiaeth.
- Cynnal hydroleg cyrsiau dŵr lleol.
- Darparu adnodd addysgol a gwella mynediad i'r cyhoedd.

### Management, Research and Guidance

- CCW guidance on managing drainage channels for nature conservation.
- Water level management plans are issued by WOAD, including notes on environmental procedures, on inland flood defence decision-making and coastal defence works.
- Water level management plans are being established for all grazing marsh SSSIs where a drainage body controls a specific structure.

### Objectives

- Maintain the existing extent and quality of grazing marsh.
- Rehabilitate areas which have become too dry or intensively managed.
- Create grazing marsh from arable land in targeted areas.

### Proposed actions

#### Policy and Legislation

- Liaise with national working group.  
**Action: CCW.**
- Continue to ensure that flood defence works are undertaken in an ecologically sensitive manner.  
**Action: CCW, EA.**

#### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- Notify important sites in Snowdonia.  
**Action: CCW.**
- Maintain and enhance extent and status of resource.  
**Action: SNPA, CCW, NWWT, Tir Gofal.**
- Prevent/reduce threats.  
**Action: SNPA, CCW, EA.**
- Assist/promote water level management plans in Snowdonia.  
**Action: EA.**

#### Advisory

- Influence landuse to protect and enhance existing habitat.  
**Action: WOAD, SNPA, CCW, Tir Gofal.**

#### Future Research and Monitoring

- Support projects which quantify the remaining extent and distribution of the habitat.  
**Action: SNPA, CCW, NWWT.**

#### Communication and Publicity

- Promote public awareness.  
**Action: SNPA, CCW, NWWT.**
- At appropriate sites encourage educational use and public access with proper interpretation.  
**Action: NWWT.**

### Implementation

#### Sources of Possible Funding and Advice

- Statutory: SNP, CCW, EA, Tir Gofal.
- Non Statutory: NT, NWWT, RSPB.
- Other: European, HLF or other lottery fund.

#### Co-ordinating Body

- SNPA.

### Benefits

- Safeguard Biodiversity.
- Maintain local beneficiary hydrology.
- Provide increased educational resource and improved access.





## Glaswellt y Bwla a Phorfeydd Brwyn (*Molinia-Juncus*)

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Mae glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn yn tyfu ar briddoedd asidig sydd wedi'u draenio'n wael gan amlaf, ar dir isel lle y ceir cwmp glaw uchel yng ngorllewin Ewrop. Gall y cynefin fel arfer fodoli ar uchderau gwahanol, ond yn aml ar dir uchel mae llystyfiant *Molinia* wedi disodli cymunedau o fignenni a gweunydd gwlyb sydd o ddiddordeb cadwraeth cynradd. Ystyrir felly bod porfeydd *Molinia-Juncus* o bwysigrwydd arbennig o ran gwarchod byd natur ar dir isel. Mae porfeydd *Molinia-Juncus* yn amrywio cryn dipyn o ran eu ffurf, o laswellt twmpathog weithiau i lawntiau byrrach gyda gorchudd uchel o hesg bach (*Carex spp.*). Ymhlith rhai o rywogaethau nodweddiadol porfeydd *Molinia* y mae'r clafrillys gwreidd-don (*Succisa pratensis*) a thresgl y moch (*Potentilla erecta*), ynghyd ag ysgallen y ddôl (*Cirsium dissectum*) lle mae'r priddoedd yn llai asidig. Os mai'r *Juncus spp.* sy'n fwyaf toreithiog, mae briwydden y gors (*Galium palustre*) a phys y ceirw mwyaf (*Lotus uliginosus*) yn aml ar wasgar rhwng y brwyn. Mae nifer cyfyngedig o rywogaethau sy'n prinhaus mewn safleoedd yng Nghymru sy'n cynnal y cynefin hwn, megis y carwe troellog (*Carum verticillatum*) ac eithin y gath (*Genista anglica*). Mae'r cynefin yn cynnal amrywiaeth o ffawna di-asgwrn-cefn, gan gynnwys o leiaf tri Lepidoptera sy'n cael blaenoriaeth yng Nghynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU: britheg y gors (*Eurodryas aurinia*), gwalchwyfyn gwenynog ymyl gul (*Hemaris tityus*) a'r gwyfyn dwy linelllog (*Mythimna turca*).

Dyma rai o brif gymunedau'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) sy'n gysylltiedig â glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn: M23 (porfa brwyn *Juncus effusus/actiflorus-Galium palustre*), M25 (mignen *Molinia caerulea-Potentilla erecta*), M26 (mignen *Molinia caerulea-Crepis paludosa*) a MG10 (porfa brwyn *Holco-Juncetum effusi*). Ymhlith yr adar fydd weithiau'n nythu ym mhorfeydd *Molinia-Juncus* y mae'r gornchwiglen (*Vanellus vanellus*), y giach (*Gallinago gallinago*), yr ehedydd (*Alauda arvensis*), sy'n un o rywogaethau blaenoriaeth y CGB, a bras y gors (*Emberiza schoeniclus*). Mae creaduriaid asgwrn ceff erail yn hoff o'r cynefin, fel y sgwarnog (*Lepus europaeus*) a'r dyfegi (*Lutra lutra*), sydd hefyd yn rhywogaethau blaenoriaeth y CGB, ac mae'n gynefin pwysig yn gyffredinol i nifer o rywogaethau o amffibiaid.

#### Ehangder

- Rhyngwladol: Anhysbys
- Cenedlaethol: Mewn ardaloedd gorllewinol yn bennaf y ceir porfeydd *Molinia-Juncus* ym Mhrydain, ac maent yn arbennig o amlwg ar swbstradau lle mae'r draeniad wedi'i arafu a lle ceir cwmp glaw uchel yng Nghymru, penrhyn de-orllewin Lloegr a de-orllewin yr Alban. Nid ydym yn gwybod yn iawn beth yw cyfanswm ehangder y cynefin drwy Brydain gan bod gwahaniaethau yn niffiniadau'r cynefin. Amcangyfrifir bod tua 35,000 ha ohono yng Nghymru, sef oddeutu 50% o gyfanswm ehangder y DG. Mae gan Gymru gyfrifoldeb arbennig felly i wneud llawer i gyrraedd targedau Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd Prydain.

## Purple Moor Grass and Rush Pastures (*Molinia-Juncus*)

### Current Status

#### Description

Purple moor grass and rush pastures occur on poorly drained usually acidic soils in lowland areas of high rainfall in western Europe. The habitat in general covers a wide altitudinal range, but in the uplands *Molinia* vegetation in particular has often replaced blanket mire and wet heath communities of primary conservation interest. It is thus in the lowlands that *Molinia-Juncus* pastures assume special importance for wildlife protection. *Molinia-Juncus* pastures are structurally very varied, and may include tussocky swards as well as shorter lawns which often have a high cover of small sedges (*Carex spp.*). Characteristic species of *Molinia* pastures include devil's bit scabious (*Succisa pratensis*), tormentil (*Potentilla erecta*) and where soils are less acidic, meadow thistle (*Cirsium dissectum*). Where *Juncus spp.* dominate, marsh bedstraw (*Galium palustre*) and greater bird's-foot trefoil (*Lotus uliginosus*) often sprawl amongst the rushes. A number of restricted and declining species occur at Welsh sites supporting this habitat, including whorled caraway (*Carum verticillatum*) and petty whin (*Genista anglica*). The habitat supports a diverse invertebrate fauna, including at least three UK BAP priority Lepidoptera: marsh fritillary (*Eurodryas aurinia*), narrow-bordered bee hawk-moth (*Hemaris tityus*) and double line (*Mythimna turca*).

The main NVC communities associated with Purple Moor Grass and Rush Pastures include M23 (*Juncus effusus/actiflorus-Galium palustre* rush-pasture), M25 (*Molinia caerulea-Potentilla erecta* mire), M26 (*Molinia caerulea-Crepis paludosa* mire) and MG10 (*Holco-Juncetum effusi* rush-pasture).

Among birds, lapwing (*Vanellus vanellus*), snipe (*Gallinago gallinago*), and the BAP priority species skylark (*Alauda arvensis*) and reed bunting (*Emberiza schoeniclus*), may breed in *Molinia - Juncus* pastures. Other vertebrates that may utilise the habitat include the BAP priority species brown hare (*Lepus europaeus*), and otter (*Lutra lutra*) and is generally important for many amphibian species.

#### Extent

- International: Unknown
- National: *Molinia-Juncus* pastures have a predominantly westerly distribution in Britain and are particularly prevalent on substrates with impeded drainage in the high rainfall areas of Wales, the south-west peninsula of England and south-west Scotland. The total UK extent of the habitat is uncertain because of varying interpretations of the habitat, but Wales holds an estimated 35,000 ha, which is perhaps 50% of the total UK extent. Wales therefore has a particular responsibility for making a major contribution towards delivery of the UK HAP targets.





- Eryri: 3800ha yw ehangder glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn o fewn ardal Cynllun Gweithredu Parc Cenedlaethol Eryri, sef 10.9% o'r cyfanswm sydd yng Nghymru, gan roi trwch o 1.9ha fesul cilomedr sgwâr.*

### Blaenoriaeth

- Rhyngwladol: UCHEL. un o gynefinoedd blaenoriaeth Cyfarwyddyd Cynefinoedd y GE.*
- Cenedlaethol: UCHEL. un o gynefinoedd blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.*
- Eryri: UCHEL. 7 yw ei sgôr gwerthuso (gweler tud. 40).*

### Ffactorau yn effeithio ar y cynefin yn Eryri

- Gwelliannau amaethyddol yn defnyddio systemau ddraenio, amaethu, calchu a gwrteithio.*
- Rheolaeth amhriodol, megis defaid yn gorbori, dim digon o bori gan wartheg a llosgi rhy reolaidd.*
- Plannu coedwigoedd a choedlannau gyda choed conwydd anaddas.*
- Rheoli llystyfiant yn wael ynghyd ag esgeuluso.*
- Diffyg ymwybyddiaeth tiffeddianwyr a datblygwyr, asiantaethau cynghori amaethyddol/coedwigaeth, awdurdodau cynllunio a chyrrff llywodraethol am bwysigrwydd cadwraeth glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn.*
- Esgeulustod o bosibl, e.e. gordyfiant prysgwydd/coed oherwydd diffyg pori.*

### Gweithredu ar y gweill yn Eryri Statws Cyfreithiol

- Mae glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn wedi eu cynrychioli o fewn SDdGA ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn Eryri.*

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- Cytundebau rheoli e.e. cynlluniau ACA, cytundebau Adran 15, cytundebau Tir Cymen ac, yn fwy diweddar, Tir Gofal. Mae CCGC yn cyhoeddi 'Arweiniad Cynefin a Gorchudd i Bennu Targedau mewn Ardaloedd Bioamrywiaeth Lleol yng Nghymru'.*

### Amcanion

- Mae'r amcanion a'r targedau yn ymwneud â gwarchod, adfer ac ehangu cynefinoedd. Y prif elfennau yw'r angen i sicrhau statws cadwraeth ffafriol a, lle y bo raid, rheoli gwaith adfer mewn ADdGA ac ardaloedd pwysig eraill, a hefyd i ddatblygu canllawiau yr ymchwiliwyd iddynt yn ofalus i adfer ac ehangu'r cynefin.*

### Gweithredu ar gyfer y Dyfodol

#### Polisi a Deddfwriaeth

- Sicrhau bod Tir Gofal yn cynnwys argymhellion fydd yn gwella ansawdd y cynefin hwn yn ogystal â'i warchod. Gweithredu: CCGC, APCE, Adran Amaethyddiaeth y Cynlluniad Cenedlaethol (AACC).*

#### Rheoli a Diogelu Rhywogaeth a Phrynu Tir

- Annog rhagor i fanteisio ar y ffynonellau nawdd sydd ar gael ar hyn o bryd i reoli ac adfer cynefin. Gweithredu: CCGC, APCE.*

- Snowdonia: The extent of purple moor-grass and rush pastures within the Snowdonia National Park LBAP area is 3800ha which is 10.9% of the Welsh resource, which gives a density of 1.9ha per square km.*

### Priority

- International: HIGH, EC Habitats Directive priority habitat.*
- National: HIGH, Priority UK BAP habitat.*
- Snowdonia: HIGH, has an evaluation score of 7 (see p.40).*

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- Agricultural improvement through drainage, cultivation, liming and fertiliser applications.*
- Inappropriate management, including overgrazing by sheep, under-grazing by cattle and too frequent burning.*
- Inappropriate coniferous afforestation and woodland planting.*
- Poor vegetation management including neglect.*
- Lack of awareness of the conservation importance of purple-moor grass and rush pastures amongst landowners and developers, agricultural/forestry advisory agencies, planning authorities and government bodies.*
- Possible neglect, e.g. scrub/tree encroachment in the absence of grazing.*

### Current action in Snowdonia

#### Legal Status

- Purple moor grass and rush pasture are represented within SSSIs and Eryri SACs.*

#### Management, Research and Guidance

- Management agreements e.g. SAC schemes, Section 15 agreements, Tir Cymen and more recently Tir Gofal agreements. CCW are publishing a 'Habitat and Cover Guidance for Target Setting in Local Biodiversity Action Areas in Wales'.*

#### Objectives

- The objectives and targets cover habitat conservation, restoration and expansion. Key components are the need to secure favourable conservation status and, where necessary, restoration management at SSSIs and other significant localities, and also to develop carefully researched guidelines to restore and expand the habitat.*

### Proposed action

#### Policy and Legislation

- Ensure that Tir Gofal includes prescriptions that will not only safeguard but enhance the quality of this habitat. Action: CCW, SNPA, NAWAD.*

#### Species Management, Protection and Land Acquisition

- Encourage uptake of present available sources of funding for management and restoration. Action: CCW, SNPA.*







- 1 Sicrhau bod pob ardal sydd o dan warchodaeth statudol yn cael ei diogelu'n briodol.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, AACC.**
- 1 Sicrhau bod cynlluniau rheoli o fewn y Parc wedi'u targedu i wella cyflwr glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y cynefin hwn.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**
- 1 Adolygu ffiniau presennol y SDdGA a'r ACA.  
**Gweithredu: CCGC.**
- 1 Sicrhau y cymerir digon o ofal i warchod a gwella'r cynefin hwn yn ystod gwaith draenio tir statudol.  
**Gweithredu: AyA.**
- 1 Sicrhau y cydnabyddir pwysigrwydd y cynefin hwn wrth baratoi unrhyw Asesiad Amgylcheddol perthnasol ar gyfer pob datblygiad arfaethedig.  
**Gweithredu: APCE.**

### Cynghori

- 1 Sicrhau bod yr holl dirfeddianwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd y cynefin hwn.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG, MC.**
- 1 Rhoi cyngor i dirfeddianwyr/rheolwyr tir ar laswellt y bwla a phorfeydd brwyn.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG.**

### Ymchwil a Monitro i'r Dyfodol

- 1 Llunio rhestr o'r holl waith ymchwil sy'n berthnasol i'r cynefin hwn.  
**Gweithredu: CCGC, APCE.**
- 1 Llunio map (sy'n gymwys ar gyfer GIS) o'r cynefin hwn ym Mharc Cenedlaethol Eryri.  
**Gweithredu: CCGC, APCE.**
- 1 Sicrhau bod yr holl gytundebau rheoli yn cael eu monitro'n briodol (e.e. Tir Cymen/Tir Gofal).  
**Gweithredu: CCGC, YG, APCE.**
- 1 Llunio rhestr o holl rywogaethau'r cynefin ym Mharc Eryri sy'n genedlaethol brin neu sydd yn y Llyfr Data Coch.  
**Gweithredu: CCGC, YG, APCE, arbenigwyr lleol.**

### Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd

- 1 Darparu deunyddiau dehongli er mwyn annog rhagor i ddeall a gwerthfawrogi'r cynefin hwn a'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig ag ef.  
**Gweithredu: CCGC, APCE, YG, CBNGC, CGA, AAyCC.**

### Gweithrediad

#### Ffynonellau ariannu a Chyngor Posib

- 1 Statudol: APCE, CCGC, AAyCC, Tir Gofal, Tir Cymen, UE.
- 1 Anstatudol: YG, CBNGC.
- 1 Arall: UE, Y Loteri, Treth Tirlenwi.

#### Corff Cydlynu

- 1 APCE.

### Manteision

- 1 Cynyddu Bioamrywiaeth a safon cyffredinol Eryri, gan gynnwys yr ystod o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r cynefin hwn.

- 1 Ensure all areas with statutory protection are adequately protected.  
**Action: CCW, SNPA, NAWAD.**
- 1 Ensure management plans within the park are targeted to improving the condition of purple moor grass and rush pastures and reflect the importance of this habitat.  
**Action: CCW, SNPA, NT.**
- 1 Review present SSSI and SAC boundaries.  
**Action: CCW.**
- 1 Ensure due care is taken to protect and enhance this habitat during statutory land drainage operations.  
**Action: EA.**
- 1 Ensure that the importance of this habitat is recognised in the preparation of any relevant Environmental Assessments for all proposed developments.  
**Action: SNPA.**

### Advisory

- 1 Ensure all landowners are aware of the importance of this habitat.  
**Action: CCW, SNPA, NT, FE.**
- 1 Provide advice for landowners/land managers with purple moor-grass and rush pasture.  
**Action: CCW, SNPA, NT.**

### Future Research and Monitoring

- 1 Establish inventory of all research relevant to this habitat.  
**Action: CCW, SNPA.**
- 1 Establish a map (compatible with the GIS) of this habitat within the SNP.  
**Action: CCW, SNPA.**
- 1 Ensure adequate monitoring of all management agreements (e.g. Tir Cymen/Tir Gofal) is undertaken.  
**Action: CCW, NT, SNPA.**
- 1 Establish inventory of all nationally scarce and Red Data Book Species within the habitat in SNP.  
**Action: CCW, NT, SNPA, Local specialists.**

### Communication and Publicity

- 1 Undertake interpretation which leads to an understanding and appreciation of this habitat and species which are associated with this habitat.  
**Action: CCW, SNPA, NT, NWWT, RSPB, NAWAD.**

### Implementation

#### Sources of Possible Funding and Advice

- 1 Statutory: SNPA, CCW, NAWAD, Tir Gofal, Tir Cymen, EU.
- 1 Non-statutory: NT, NWWT.
- 1 Other: EU, Lottery, Landfill Tax.

#### Co-ordinating Body

- 1 SNPA.

### Benefits

- 1 Increase in the overall Biodiversity and aesthetic quality of Snowdonia including range of species closely associated with this habitat type.



**Cysylltiadau â Chynlluniau  
Gweithredu eraill**

- <sup>1</sup> *Britheg y gors (EUa).*
- <sup>1</sup> *Cornchwiglen (VAv).*
- <sup>1</sup> *Ehedydd (ALa).*
- <sup>1</sup> *Y Sgwarnog (LEe).*
- <sup>1</sup> *Y Dyfrgi (LUI).*
- <sup>1</sup> *Madfall Gribog Fwyaf (TRc).*

**Links with other Action Plans**

- <sup>1</sup> Marsh Fritillary (EUa).
- <sup>1</sup> Lapwing (VAv).
- <sup>1</sup> Skylark (ALa).
- <sup>1</sup> Brown hare (LEe).
- <sup>1</sup> Otter (LUI).
- <sup>1</sup> Great crested newt (TRc).



## Coedlannau Ynn Cymysg

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Mae coedlannau ynn yn cynnwys cymysgedd o goed mewn pridd gweddol faethus fel arfer, gyda'r onnen (*Fraxinus sp.*) yn fwyaf cyffredin, ond y dderwen (*Quercus*), y fedwen (*Betula*), y llwyfen (*Ulmus*) a'r leim fanddail (*Tilia cordata*) yn aml yn doreithiog. Fforestydd mawr fel Coed Gorswen yw'r coedlannau hyn yn aml, neu borfeydd coediog fel Ffridd Cors y Garnedd. Er bod rhai yn goedydd hynafol iawn, mae coed ynn yn hoff iawn o dir agored ac yn tyfu'n fuan fel coedlannau newydd. Ar hyn o bryd y goedlan onn uchaf yn Eryri yw Ffridd Cors y Garnedd, ar 450m. Mae coedlannau ynn yn gynefin cymharol brin yn Eryri ac yn tyfu'n bennaf lle mae'r pridd yn weddol faethus. Maent yn cynnwys teuluoedd planhigion NVC W8 ac W9.

Mae coedlannau ynn cymysg ymhlith y cynefinoedd mwyaf toreithiog i fywyd gwyllt yn yr ucheldir, gyda charpedi o fwtsias y gog (*Hyacinthoides non-scripta*), tuswâu o friallu (*Primula vulgaris*) a chra (*Allium ursinum*). Mae cen pwysig yn tyfu ar risgl yr onnen, yn enwedig y *Lobarion*. Mae'r pren crin hefyd yn gynefin i chwilod prin ac i bryfetach a chreaduriaid di-asgwrn cefn eraill.

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: Anhysbys.
- 1 Eryri: Anhysbys. Ni wyddom fawr ddim am ehangder coedlannau ynn yn Eryri, ond dylai'r sefyllfa newid yn dilyn arolygon gan yr Awdurdod Coedwigaeth, Parc Eryri a'r Cyngor Cefn Gwlad.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: UCHEL.
- 1 Cenedlaethol: UCHEL.
- 1 Eryri: UCHEL.

### Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Gorburi yn amharu ar aildwf.
- 1 Twf coed heb fod yn frodorol fel coed masarn, ffawydd ac ati, sy'n arwain at newid cyfansoddiad y goeden.
- 1 Mae'r afiechyd 'llwyfen yr Iseldiroedd' [Dutch Elm] wedi newid ffurf a chyfansoddiad y coed hyn.
- 1 Arferion amaethu sy'n arwain at unfurfiaeth tirlun ac sy'n tueddu'n barhaus i chwalu gwrychoedd a llwyni ynn mewn caeau.

### Gweithredu ar y gweill yn Eryri

#### Statws cyfreithiol

- 1 Mae'r cynefin hwn yn cael ei warchod yn statudol ar rai safleoedd ond mae'n debyg nad oes digon o hyn o fewn Safleoedd o Ddi-ddordeb Gwyddonol Arbennig yn Eryri.
- 1 Mae rhai cyrrff cadwraeth statudol ac anstatudol yn berchen ac yn rheoli ychydig o'r cynefin hwn. Mae'n cael ei reoli o dan y Cynllun Grantiau Coetir.

## Mixed Ashwoods

### Current status

#### Description

Mixed ashwoods comprise a broad range of woodland types on base-rich soils, in most of which ash (*Fraxinus sp.*) is a major species, but locally oak (*Quercus spp.*), birch (*Betula spp.*), elm (*Ulmus spp.*) and small-leaved lime (*Tilia cordata*) may be abundant. Such woods usually take the form of high forest such as Coed Gorswen, or have been managed as wood pastures, such as Ffridd Cors y Garnedd. Whilst some are ancient woods, ash is a vigorous colonist of open ground and ashwoods can form rapidly as secondary woodland. Presently the altitudinal limit for ash woodland within Snowdonia is at c450m, at Ffridd Cors y Garnedd. Ash woodland is a relatively rare habitat within Snowdonia being found mainly where the underlying geology is of a base-rich nature. It includes NVC types W8 and W9.

Mixed ashwoods are amongst the richest habitats for wildlife in the uplands, notable for bright displays of flowers such as bluebell (*Hyacinthoides non-scripta*), primrose (*Primula vulgaris*) and wild garlic (*Allium ursinum*). The alkaline bark of ash supports an important lichen flora, particularly the *Lobarion* community. The remains of old elm trees provide deadwood habitat for rare beetles, flies and other invertebrates.

#### Extent

- 1 International: Unknown.
- 1 National: Unknown.
- 1 Snowdonia: Unknown. The extent of upland ashwoods in Snowdonia is poorly known, but this should be improved by ongoing surveys by FC, SNPA and CCW.

#### Priority

- 1 International: HIGH.
- 1 National: HIGH.
- 1 Snowdonia: HIGH.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Overgrazing leading to lack of regeneration.
- 1 Invasion by sycamore, beech and other non-native species leading to a change in species composition.
- 1 Dutch elm disease has changed the structure and species composition.
- 1 Trends in agricultural practices towards simplifying the landscape, which progressively eliminate boundaries and small patches of ash-rich scrub in fields.

### Current action in Snowdonia

#### Legal Status

- 1 Statutory site protection plays a part in the conservation of this habitat although it is likely that it is under represented within the SSSI coverage in Snowdonia.
- 1 Some of this habitat is owned and managed by statutory and non-statutory conservation bodies and is managed under the Woodland Grant Scheme.





- 1 Mae grantiau ar gael trwy Gynllun Grantiau Coetir yr Comisiwn Coedwigaeth i reoli ac ehangu'r cynefin hwn. Mae grantiau ychwanegol ar gael trwy'r un cynllun i ehangu coedlannau brodorol newydd o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 1 Mae'r Cytundeb Coetir Brodorol rhwng yr Awdurdod Coedwigaeth a Pharc Cenedlaethol Eryri yn cefnogi Cynllun Bioamrywiaeth Eryri ar gyfer y cynefin hwn ac am gynyddu arwynebedd coedlannau brasddail yn y Parc o 50% o fewn yr hanner can mlynedd nesaf. Mae hefyd am sicrhau fod pob coedlan yn cael ei rheoli'n briodol o fewn yr un cyfnod.
- 1 Yn 1994, cynhyrchodd y Comisiwn Coedwigaeth lawlyfr ar sut i reoli coed ynn cymysg yn yr ucheldir. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn grantiau i reoli coed, dylid dilyn y llawlyfr hwn.

## Amcanion

- 1 I gynnal ehangder presennol coed ynn, ac i wella eu cyflwr.
- 1 I ehangu twf coed ynn i dir agored.
- 1 Nodi lleoliad ac annog adfer coed ynn sydd wedi dirywio oherwydd diffyg gofal priodol neu oherwydd cyflwyniad neu ymlediad mathau dieithr o goed.

## Gweithredu ar y gweill

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Dim.

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Cyn ystyried cynlluniau i gwympto, ail-blannu ac ehangu coed, dylid ceisio cadw o leiaf 2 hectar o'r goedlan bresennol.  
**Gweithredu: APCE, CC, MC, Coed Cymru, YG.**
- 1 Gan ddefnyddio model cyfrifiadurol, nodi safleoedd addas i blannu coedlannau ynn newydd yn Eryri; ynghyd â Mapiau Cyfnod 1 i ddod o hyd i safleoedd i ehangu coedlannau.  
**Gweithredu: APCE, CC.**
- 1 Targedu cynlluniau ehangu er mwyn cysylltu ac ymledu coedlannau darniog eraill ac osgoi cynefinoedd lled-naturiol gwerthfawr.  
**Gweithredu: APCE, CC.**

### Cynghori

- 1 Hybu a gweithredu cynllun rheoli cydweithredol ar gyfer coedlannau heb fod o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.  
**Gweithredu: CCGC, CC, YG, YmG, APCE, Coed Cymru.**
- 1 Asesu cyflwr coedlannau fel rhan reolaidd o brosiectau rheoli coed.  
**Gweithredu: CCGC, CC, APCE, YG, YmG, Coed Cymru, MC.**
- 1 Nodi lleoliad coed ynn mewn coedlannau hynafol a lled-naturiol a thargedu grantiau lle fo'n bosib.  
**Gweithredu: CC, APCE.**
- 1 Hybu defnyddio dulliau naturiol o sefydlu coedlannau a mathau lleol o goed.  
**Gweithredu: CCGC, CC, APCE, Coed Cymru.**

- 1 Grant aid is available via the Forestry Commission's Woodland Grant Scheme to manage and expand this habitat. Additional special grants are available through the same scheme to expand new native woodlands within the National Park.
- 1 The current FC/SNPA Native Woodland Accord supports the Snowdonia BAP for this habitat and aims to increase the area of broadleaved woodland within the Park by 50% within the next 50 years. It also aims to ensure that all woodland is appropriately managed within the same period.
- 1 In 1994, FA produced a management guide on the management of upland mixed ashwoods. In order to qualify for grant aid management should follow this guide.

## Objectives

- 1 To maintain the existing area of ash woodland and improve its condition.
- 1 To expand the area of ash woodland onto currently open ground.
- 1 To identify and encourage the restoration of former ash woodland which has been degraded by the lack of appropriate management or the introduction or invasion of inappropriate or exotic species.

## Proposed actions

### Policy and Legislation

- 1 None proposed.

### Site Management, Safeguard and Land Acquisition

- 1 When considering both felling and restocking plans and expansion, the aim should be to maintain the area of woodland to at least 2 hectares.  
**Action: SNPA, FC, FE, CC, NT.**
- 1 Using computer models, identify suitable sites for new upland ash woodland in Snowdonia; together with Phase I maps identify suitable areas for expansion.  
**Action: SNPA, FC.**
- 1 Target expansion to link and augment other woodland fragments avoiding valuable semi-natural habitats.  
**Action: SNPA, FC.**

### Advisory

- 1 Promote and implement an agreed management plan format for non SSSI status woodland.  
**Action: CCW, FC, NT, WT, SNPA, CC.**
- 1 Promote and implement the general use of woodland condition assessments in woodland management projects.  
**Action: CCW, FC, SNPA, NT, WT, CC, FE.**
- 1 Identify ash woodland on AWS/ASNW and target grant aid where possible.  
**Action: FC, SNPA.**
- 1 Promote the use of natural methods of establishment and the use of local provenance planting material.  
**Action: CCW, FC, SNPA, CC.**



- 1 *Hybu rheolaeth ar geirw yn Eryri gan ddilyn unrhyw arweiniad gan Gynllun Ceirw Cymru.*  
**Gweithredu: CC, APCE, MC, YmG, YG, CCGC, UAC, NFU, CBN, CGA.**
- 1 *Rhoi cyngor i berchnogion ar sut i reoli coedlannau ynn.*  
**Gweithredu: CC, APCE, CCGC.**
- 1 *Rhoi cyngor ar sut i farchnata cynnyrch o goed ynn, e.e., golosg, coed i'r diwydiant adeiladu, cellfi ac offer tŷ ayb.*  
**Gweithredu: Coed Cymru.**
- 1 *Hybu rheolaeth ar rai coedlannau addas ar gyfer cynhyrchu a hel hadau ohonynt.*  
**Gweithredu: CC, APCE, CCGC, YG, YmG**
- 1 *Rhoi cyngor ar ddulliau o adfer coedlannau ynn, erbyn 1998.*  
**Gweithredu: CC, APCE, CCGC.**
- 1 *Tyfu coedlan i arddangos arferion rheoli coed yn y cynefin hwn.*  
**Gweithredu: APCE, CC, CCGC.**

### Ymchwil a Monitro i'r Dyfodol

- 1 *Gan ddefnyddo Rhestr Goedlannau yr Awdurdod Coedwigarth a'r model cyfrifiadurol ar gyfer darganfod safleoedd newydd i blannu coedlannau ynn, ceisio mapio'r coedlannau presennol yn Eryri sydd dros 2 hectar, yn ôl math, yn defnyddio'r sistem NVC. Gwirio'r data yn erbyn arolygon NVC sydd eisoes wedi eu gwneud.*  
**Gweithredu: APCE, CCGC, CC.**
- 1 *Gan ddefnyddio cyfuniad o'r Rhestr Goedlannau, Cynllun Grantiau Coetir, data'r CCGC a Thir Cymen, mapio'r coedlannau sydd dros 2 hectar a dan reolaeth bositif, a'r rhai sydd ddim.*  
**Gweithredu: APCE, CCGC.**
- 1 *Digideiddio'r Rhestr Goedlannau Hynafol a defnyddio sampl 1 o'r Rhestr i wirio'r data.*  
**Gweithredu: APCE, CC, CCGC.**
- 1 *Cofnodi'r holl goedlannau ynn newydd ar ddatbas sydd (i) newydd sefydlu, ii) wedi sefydlu'n llawn.*  
**Gweithredu: CC, Tir Cymen**
- 1 *Dosbarthu'r ymchwil i bartneriaid.*  
**Gweithredu: CC.**

### Cyathrebu a Chyhoedduswydd

- 1 *Nodi lleoliad coedlannau ynn sydd wedi dirywio a thargedu gweithredu ar eu cyfer.*  
**Gweithredu: CC, APCE.**
- 1 *Ar y cyd hefo'r Comisiwn Coedwigaeth/Parc Cenedlaethol Eryri (trwy'r Cytundeb Coetir), sefydlu grŵp llywio i gydlynw'r gweithredu a'r canlyniadau.*  
**Gweithredu: APCE, CC.**
- 1 *Dylid adrodd yr holl dargedau sydd i'w gweithredu o dan y cynllun hwn i'r Grŵp Llywio Coetir Brodorol.*  
**Gweithredu: APCE, CC.**

- 1 Promote the management of deer in Snowdonia following any guidance provided by the Deer Initiative Wales.  
**Action: FC, SNPA, FE, WT, NT, CCW, FUW, NFU, NWWT, RSPB.**
- 1 Provide management advice for owners of ash woodland.  
**Action: FC, SNPA, CCW.**
- 1 Provide marketing advice for ash wood produce e.g. charcoal, timber for structures, tools and utensils.  
**Action: CC.**
- 1 Promote the management of some suitable woodlands for seed production and collection.  
**Action: FC, SNPA, CCW, NT, WT.**
- 1 Promote advice on the methods of restoring ashwood sites by 1998.  
**Action: FC, SNPA, CCW.**
- 1 Develop a woodland site to demonstrate management practices within the habitat.  
**Action: SNPA, FC, CCW.**

### Future Research and Monitoring

- 1 Using the Forestry Commission's Woodland Inventory and the computer model for predicting suitable sites for new ashwoods, investigate the opportunity to map existing woodlands in Snowdonia over 2 hectares by type using NVC. Verify data using existing NVC surveys.  
**Action: SNPA, CCW, FC.**
- 1 Using a combination of Woodland Inventory, Woodland Grant Scheme, CCW and Tir Cymen data, map those woodlands over 2 hectares that are under positive management and those without positive management.  
**Action: SNPA, CCW.**
- 1 Digitise Ancient Woodland Inventory and use 1% sample from Inventory to verify data.  
**Action: SNPA, FC, CCW.**
- 1 Record all new ash woodlands on existing data bases at i) an initial establishment stage ii) fully established stage.  
**Action: FC, Tir Cymen.**
- 1 Disseminate research information to key partners.  
**Action: FC.**

### Communication and Publicity

- 1 Identify degraded ash woodland and target for action.  
**Action: FC, SNPA.**
- 1 In conjunction with FC/SNPA Native Woodland Accord, set up a steering group to co-ordinate all proposed action and outputs.  
**Action: SNPA, FC.**
- 1 All targets actioned under this plan should be reported to the Native Woodland Steering Group.  
**Action: SNPA, FC.**





## Gweithrediad

### Ffynonellau Ariannu a Chyngor

- <sup>1</sup> Statudol: AASG, CC, APCE, Tir Gofal.
- <sup>1</sup> Anstatudol: CBN.
- <sup>1</sup> Eraill: Loteri.

### Corff Cydlyn

- <sup>1</sup> APCE.

## Manteision

- <sup>1</sup> Cynyddu Bioamrywiaeth a gwella'r olygfa.
- <sup>1</sup> Gwell cyfleon ar gyfer creu gwaith yng nghefn gwlad a chynhyrchu incwm.
- <sup>1</sup> Arallgyfeirio i ffermydd.
- <sup>1</sup> Datblygu nwyddau cynaladwy.
- <sup>1</sup> Gwell cyfleon addysgol a hamdden/adloniant.
- <sup>1</sup> Llai o erydiad pridd a llygru cyrsiau dŵr

## Implementation

### Sources of Possible Funding and Advice

- <sup>1</sup> Statutory: WOAD, FC, Tir Gofal, SNPA.
- <sup>1</sup> Non-statutory: NWWT.
- <sup>1</sup> Other: Lottery.

### Co-ordinating Body

- <sup>1</sup> SNPA.

## Benefits

- <sup>1</sup> Increasing Biodiversity and aesthetic improvements.
- <sup>1</sup> Improved possibilities of rural employment and income generation.
- <sup>1</sup> Farm diversification.
- <sup>1</sup> Development of sustainable products.
- <sup>1</sup> Improved educational and recreational opportunities.
- <sup>1</sup> Reduction of soil erosion and pollution of watercourses.

---

**Awduron/Authors:** Martin Garnett, MC/FE; Ruth Jenkins, CC/FC; John Good, ITE;  
Chris Smith & Mike Langley, APCE/SNPA; Jean Mathews, CCGC/CCW; John Barnes, BTO.



## Coed Derw'r Ucheldir

### Statws presennol

#### Disgrifiad

Mae coedwigoedd derw'r ucheldir yn gyffredin trwy Gymru benbaladr, ac yn arbennig felly yn Eryri. Fel arfer maen nhw'n tyfu ar lethrau serth y dyffrynnoedd, weithiau nepell o'r môr hyd yn oed, yn glynu'n dynn wrth greigiau'r clogwyni. Y brif rywogaeth yw'r dderwen (*Quercus petraea*), ond mae'r fedwen (*Betula*) hefyd yn gyffredin, ynghyd â chlystyrau o goed bach, perthi a choed cyll (*Corylus avellana*), coed criafol (*Sorbus aucuparia*) a chelyn (*Ilex aquifolium*). Mae cyfansoddiad y fflora yn amrywio yn ôl amrywio o ffactorau gan gynnwys ansawdd a gwybanaeth y pridd, amodau draenio a ph'un ai yw anifeiliaid yn pori yno ai peidio. Bwtsias y gog (*Hyacinthoides non-scripta*), mieri (*Rubus*) a rhedyn sy'n tyfu amlaf lle mae'r pridd yn faethus, grug (*Calluna vulgaris*), tra bod llus (*Vaccinium myrtillus*) a mwsog yn fwy cyffredin mewn pridd asidig a di-faeth. Gan ddibynnu ar y pridd, gall mathau eraill o goed hefyd dyfu, e.e., gall pridd lled-ddiferol gynnal coed bedw (*Fraxinus excelsior*), llwyfen (*Ulmus spp.*) a chyll gyda thoreth o fflora, yn cynnwys planhigion fel bresych y cŵn (*Mercurialis perennis*) a chra (*Allium ursinum*). Coed gwern (*Alnus glutinosa*) sy'n nodweddu pridd gwlyb, fel arfer mewn pantiau corsiog, wrth ymyl nant neu ffynnon. Mae coedwigoedd derw'r ucheldir, yn enwedig rhai gyda cheunentydd oddi mewn iddynt, yn gynefin arbennig o bwysig i wahanol fwsog, cen a llysiâu'r afu, ac mae hin arfordirol coedydd llai y gorllewin yn hybu twf amryw o rywogaethau sy'n rhyngwladol brin. Mae yma ddigonedd o anifeiliaid hefyd, ac adar nythu unigryw fel y gwybedog brith (*Ficedula hypoleuca*), y tingoch (*Phoenicurus phoenicurus*) a thelor y coed (*Phylloscopus sibilatrix*). Mae coedwigoedd derw'r ucheldir yn cynnwys y rhywogaethau NVC W11, W17 (+W6, W7, W8, W9, W10).

Roedd Eryri gyfan unwaith yn drwm dan goed ond does fawr ddim ohonynt ar ôl erbyn heddiw. Mae torri neu gwmpo coedwigoedd derw cyfain yn beth prin heddiw ond mae ffactorau eraill sy'n bygwth ansawdd ac ehangder y cynefin hwn.

#### Ehangder

- 1 Rhyngwladol: Anhysbys.
- 1 Cenedlaethol: Mae rhwng 70,000 a 1000,000 hectar o goedwigoedd derw'r ucheldir ym Mhrydain heddiw.
- 1 Eryri: Tua 10% o'r adnodd cenedlaethol. Ni wyddom eto faint o goedwigoedd derw'r ucheldir sydd yn Eryri, ond tua 2-3% o'r Parc mae'n debyg.

#### Blaenoriaeth

- 1 Rhyngwladol: UCHEL. Rhyngwladol bwysig.
- 1 Cenedlaethol: UCHEL.
- 1 Eryri: UCHEL.

### Ffactorau'n effeithio ar y cynefin hwn yn Eryri

- 1 Gorburi yn amharu ar aildwf.
- 1 Ymlediad chwyn difaol (e.e. *Rhododendron ponticum*, cegid y gorllewin (*Tsuga heterophylla*)).
- 1 Diffyg rheolaeth briodol.
- 1 Llygredd aer a newid hinsawdd.

## Upland Oakwoods

### Current status

#### Description

Upland oakwoods occur throughout Wales with particular concentrations in Snowdonia. They typically cover steep valley sides and, in the west, are also found near the coast sometimes even clinging to exposed sea cliffs. The main tree species is sessile oak (*Quercus petraea*), but birch (*Betula spp.*) are also common, together with an understorey of small trees and shrubs of hazel (*Corylus avellana*), rowan (*Sorbus aucuparia*) and holly (*Ilex aquifolium*). The composition of the ground flora varies in relation to a number of factors including soil fertility, drainage conditions and whether or not grazing is present. Bluebells (*Hyacinthoides non-scripta*), brambles (*Rubus spp.*) and ferns tend to be most common where the soil is rich, with heather (*Calluna vulgaris*), bilberry (*Vaccinium myrtillus*) and mosses becoming more prominent on soils which are acid and deficient of nutrients. Depending on soil conditions, a patchwork of other woodland types may also be present. For example, soils flushed with seeping water may support ash (*Fraxinus excelsior*), elm (*Ulmus spp.*) and hazel with a luxuriant ground flora including plants such as dog's-mercury (*Mercurialis perennis*) and wild garlic (*Allium ursinum*). Alder (*Alnus glutinosa*) is the dominant tree on the wet soils of boggy hollows or springlines. Upland oakwoods and especially ravines within them are especially important habitats for mosses, liverworts and lichens, and the oceanic climate of the humid western woods is favourable for many internationally rare species. Animals are also well represented, including distinctive breeding birds such as the pied flycatcher (*Ficedula hypoleuca*), redstart (*Phoenicurus phoenicurus*) and wood warbler (*Phylloscopus sibilatrix*). Upland oakwoods include NVC types W11, W17 (+W6, W7, W8, W9, W10).

Woodlands once covered most of Snowdonia but now only a fraction remains. Clear-felling of upland oakwoods is rare nowadays but a range of other factors threaten the quality and area of this habitat.

#### Extent

- 1 International: Unknown.
- 1 National: Total area of UK upland oak woodlands is between 70,000 and 100,000 hectares.
- 1 Snowdonia: Approximately 10% national resource. The extent of upland oak woodlands in Snowdonia is as yet unknown but probably covers 2-3% of the Park.

#### Priority

- 1 International: HIGH. Internationally important.
- 1 National: HIGH.
- 1 Snowdonia: HIGH.

### Current factors affecting habitat in Snowdonia

- 1 Over-grazing leading to a lack of regeneration.
- 1 Spread of invasive species (e.g. *Rhododendron ponticum*, Western Hemlock (*Tsuga heterophylla*)).
- 1 Lack of appropriate management.
- 1 Atmospheric pollution and climate change.





## Gweithredu ar y gweill yn Eryri

### Statws cyfreithiol

- 1 Ar restr Atodiad 1 y Cyfarwyddyd Cynefin Ewropeaidd.
- 1 Mae rhai o'r coedwigoedd mwyaf a phwysicaf wedi eu gwarchod fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur, neu wedi eu diogelu dan Orchmyinion Gwarchod Coed.

### Rheolaeth, Ymchwil ac Arweiniad

- 1 O fewn Parc Eryri, mae llawer yn cael ei wneud i reoli, adfer ac ehangu coedwigoedd derw'r ucheldir. Mae'r cyrff sy'n arwain ar hyn yn cynnwys y CC, APCE, CCGC, MC, YG, yr Ymddiriedolaeth Goedlannau (YmG), CGA a thirfeddianwyr preifat.
- 1 Nod y Cytundeb Coetir rhwng y Parc a'r Awdurdod Coedwigaeth yw 'cynyddu arwynebedd y coedlannau brodorol yn y Parc Cenedlaethol o 50% dros y 50 mlynedd nesaf, a sicrhau fod y coedlannau presennol yn cael eu rheoli'n iawn o fewn yr un cyfnod.'
- 1 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth, Parc Eryri, Coed Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad yn chwarae rhannau blaenllaw.

### Amcanion

- 1 Cynnal a gwella'r coedlannau presennol a, lle fo'n briodol, cynyddu ehangder coed derw'r ucheldir.
- 1 Hel data ar ehangder y cynefin hwn ym Mharc Eryri.

## Gweithredu ar gyfer y dyfodol

### Polisi a Deddfwriaeth

- 1 Dim.

### Rheoli a Diogelu Cynefin a Phrynu Tir

- 1 Hyrwyddo a gweithredu cynllun rheoli ar gyfer coedlan heb statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.  
**Gweithredu: CCGC, CC, YG, YmG, Coed Cymru.**
- 1 Hyrwyddo ac asesu cyflwr coedlannau fel rhan o brosiectau rheoli coedlannau.  
**Gweithredu: CCGC, CC, APCE, Tir Gofal, AyrA, Coed Cymru, MC, YG, YmG, CBN, CGA.**
- 1 Nodi ble mae coedlannau derw'r ucheldir ar Safleoedd Coetir Hynafol neu Safleoedd Lled-Naturiol Hynafol a thargedu grantiau ar eu cyfer.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, YG, CC.**
- 1 Rhoi blaenoriaeth i glirio chwyn dieithr oddi mewn a, lle fo'n bosib, ar gyrion coedlannau.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, YG, CC.**
- 1 Wrth ystyried cwmpo, ailblannu ac ehangu coed, dylid ceisio cadw unrhyw goedlan fwy na 2 hectar.  
**Gweithredu: APCE, CCGC, YG, CC.**
- 1 Gan ddefnyddio modelau cyfrifiadurol, ceisio darogan pa safleoedd fydd yn addas i'w plannu'n goedlannau derw newydd yn ucheldir y Parc; gyda'r Mapiau Cyfnod I, nodi pa goedlannau i'w ehangu a phrai ddim.  
**Gweithredu: APCE, CC.**
- 1 Rhoi blaenoriaeth i ehangu coedlannau derw newydd yn yr ucheldir, fel eu bod yn cysylltu i ac yn ymestyn coedwigoedd llai, tra'n osgoi cynefinoedd lled-naturiol gwerthfawr.  
**Gweithredu: APCE, CC.**

## Current action in Snowdonia

### Legal Status

- 1 Listed on Annex 1 of the EC Habitats Directive.
- 1 A series of the largest and most important examples are protected as SSSIs and NNRs and under Tree Preservation Orders within Snowdonia.

